


ECO'R WYDDFA

RHIF 58

EBRILL 1981

Pris 15c

HEDFAN YN UCHEL



ENNILL MEDAL AUR

Llongyfarchiadau i Elwyn Thomas, Hafan, Llanrug ar ennill medal aur mewn cystadleuaeth saethu gyda reiffl .22. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yng Nghricieth yng Ngynghrair Cymru a Mynwy. Un rownd yn unig a gollodd Elwyn allan o naw, gan sgorio 868 o bwyntiau allan o 900. Erbyn hyn mae ganddo ddwy fedal efydd, dwy fedal arian, ac wrth gwrs, un fedal aur bellach.

ARDDANGOS YN Y GENEDLAETHOL




Llongyfarchiadau i Andrew V. Williams a Gwyneth Evans ar gael arddangos eu gwaith arlunio yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd fel rhan o gystadleuaeth arlunio Gŵyl Ddewi 1981. Bydd y gwaith yn cael ei arddangos yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Machynlleth hefyd yn ystod dechrau Awst.

AR EU FFORDD I'R GENEDLAETHOL



Llongyfarchiadau i Einir Parry, a Gwyn Meirion Roberts, y ddau yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail, ar lwyddo i gyrraedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mro Teifi. Yn Eisteddfod Sir Eryri a gynhaliwyd Mawrth 21 ym Mhewllheli daeth Einir yn gyntaf ar yr Unawd Telyn dan 15 oed, a Gwyn yn gyntaf yn yr Unawd Offeryn Pres dan 15 oed.

MAES AWYR NEWYDD I FRO'R ECO?



Beth yw arwyddocâd yr awyren hon? Chwiliwch y rhifyn hwn i ddarganfod yr ateb.

SYNIADAU AM WAITH OS GWELWCH YN DDA

A ddylem ni mewn difrif ddisgwyl i swyddi a ffatrioedd ddod yma i Arfon dros glawdd offa, neu a ddylem geisio creu gwaith a swyddi ein hunain? Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn bendant mai drwy helpu ein hunain y mae llwyddo. Yn wyneb y diweithdra trychinebus yn yr ardal a'r posibilrwydd cryf y bydd pethau'n gwaethgu'n ddirfawr gyda Dinorwig yn dirwyn i ben, mae'r Cyngor am geisio gwneud rhywbeth cadarnhaol i wella'r sefyllfa.

Y bwriad yw i gasglu syniadau am fentrau Cymunedol ac yna galw Cyfarfodydd Cyhoeddus i geisio cael pwyllgor llywio lleol yng Nghwm-y-glo a Llanrug. Mae arbenigwyr o sawl cyfeiriad wedi addo eu cymorth fel Bwrdd Datblygu Cymru, Canolfan Hybu Gwaith Gogledd Cymru, Swyddog Datblygu Economaidd Cyngor Sir Gwynedd ac eraill.

Rhaid felly cael gwybodaeth gennych chi beth sydd ar goll yn eich pentref a fuasai'n creu swydd llawn neu ran amser. Rydym yn siŵr

fod gennych syniadau. Does dim rhaid i'r syniad fod gyda chynnyrch ar y diwedd er y byddai hyn yn fantais.

Dyma rai o syniadau sydd eisoes wedi eu gwireddu. Antur Uwchaled sydd yn cynhyrchu gwaith coed ar gyfer amaethyddiaeth, Tafarn yn Llŷn wedi ei phrynu gan y gymdeithas ac yn cael ei rhedeg gan bwyllgor lleol. Ym Mhenrhyndeudraeth maent yn bwriadu cyflogi crydd llawn amser i gyflawni galw lleol yn dilyn ymddeoliad rai blynyddoedd yn ôl. Lawr yn y de mae bwriad i agor llaethdy cymunedol i drin a marchnata llaeth geifr; menter 'Geifr Cymru'. Mae'r rhestr o syniadau yn ddi-ddiwedd felly cysylltwch â'r Cyngorydd Gwyndaf Jones gyda'ch syniadau yn ystod y mis nesaf er cael eu trafod yn y cyfarfodydd cyhoeddus. Gellid cyhoeddi rhai o'r syniadau yn rhifyn Mai o'r Eco.

Os ydych ni meddwl am funud mai rhyw syniadau yn yr awyr yw'r rhain, a fuoch chi yn y Co-op yn Llanrug yn ddiweddar? Breuddwyd rhywun oedd hwn ar y dechrau, cofiwch! Mae'r Cyngorydd Gwyndaf Jones yn edrych ymlaen i gael clywed oddi wrth bawb sydd â syniadau i'w cynnig. Ei gyfeiriad yw 60 Glanffynnon a'i rif ffôn yw Caernarfon 4669. Mae menter gyffelyb eisoes wedi cael ei dechrau yn Llanberis, lle mae criw o bobl ar hyn o bryd yn chwilio am waith sydd angen ei wneud o gwmpas y pentref. Mae mentrau 'creu gwaith' yn haeddu ein cefnogaeth ni i gyd.

ECO'R WYDDFA

Rhif 58
EBRILL 1981

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside/Thomas, Brony Nant, Pont-
rhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun. (Penyllyn 438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
(Llanberis 220)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669).

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gwledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLLEN: Meirion Jones,
Minafon, Clwt-y-bont (Llanberis 452)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, Penisarwaun.

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn, (Waunfawr 626).

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf

o'r wasg ar

30 EBRILL

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

erbyn 23 EBRILL

os gwelwch yn dda.

Llythgyrau

"HÔM GARD" DEINIOLLEN

6 Ffordd Penlan,
Llangefni.
Ffôn 723482.

Annwyl Syr,

Pleser mawr i mi oedd darllen
helyntion 'Y Gwalch' yn rhifyn
diwethaf o 'Eco'r Wyddfa'.

Bum innau a fy hen gyfaill, y
diweddar Dennis Wyn Roberts, o
Ddeiniolen, mewn tipyn o ddŵr poeth
efo'r Local Defence Volunteers, (neu yn
ddiweddarch, yr Home Guard), er na
fûm erioed yn aelod o'r Sefydliad
gogoneddus hwnnw.

Bechgyn ysgol oeddym pan
dorodd y Rhyfel allan, a rhyw
brynhaun Sadwrn braf, euthum i ben
Moel Rhiwen am dro.

Yn hollol ddamweiniol, deuthum
ar draws lloches fregus a adeiladwyd
gan yr Home Guard i roddi rhywfaint o
gysgod iddynt tra yn gwyllo am y
'parachutists' Almaenig a oedd pawb
yn sicr oedd am ymosod arnom unrhyw
noson.

Roedd fy mrawd, Dafydd,
newydd ymuno â'r gatradd, ac yn
disgwyl cael galwad, unrhyw funud, i
wyllo ar y mynydd. Er mwyn cael tipyn
o hwyl, penderfynodd Dennis a minnau
adael llythyr yn y lloches, gan gymryd
arnom mai dau ysbïwr Almaenig
oeddym.

Rhoddasom rybudd y buasem yn
ymweld â hwy ar doriad y wawr, ac os y
buasent yn taflu eu harfau a rhoddi eu
hunain i fyny yn ddistaw, fuasai yna
ddim perygl iddynt, ac ni chaent ddim
nizwed. Roedd yno 'chwaneg o rhyw
lolian arall yn y llythyr hefyd, ac
arwyddwyd ef gyda'r geiriau 'Two
German Spies'.

Bore trannoeth cawsom wybod fod
yno dipyn o gynnwrf wedi bod yn y
pentref, a bod yna ddau ysbïwr
Almaenig yn rhydd ar y mynyddoedd.

Roedd yno lawer o bosteri yr adeg
honno yn annog pawb i fod yn
wyliaidwrus beth oeddynt yn ei ddweud,
rhag ofn i'r gelyn gael gwybod beth oedd
yn mynd ymlaen. Plastrwyd y geiriau
'Careless talk costs lives' ymhobman,
ond, yn anffodus, anghofiodd Dennis
am y cyngor. Soniodd wrth rhywun yng
nghwt Billiards Huw Bach am y
llythyr, a phwy oedd yn gyfrifol
amdano, ac aeth hwnnw i achwyn at y
plisman, heb sychu ei geg.

Twrn Dick Jones a Wil Parry (tad
Gwenlyn Parry, y dramodydd) oedd hi
i wyllo y noson honno, a buan iawn y
daethant ar draws y llythyr.

Roedd y ddau wedi cynhyrfu tipyn
yn ôl yr hanes, a phenderfynwyd mai
doeth fyddai i'r awdurdodau gael eu
hysbysu o'r llythyr. Y problem, pa 'run
bynnag, oedd pwy oedd i aros ar ôl ar
ben y mynydd, a phwy ddylia fynd i
chwilio am gymorth? Roedd eisiau llew
o ddyn i aros ar ben y mynydd ar ben ei
hun.

Ar ôl dadla brwd, penderfynwyd
i'r ddau fynd i weld y plisman gyda'i
gilydd, a gadael pen y mynydd i'w
siatwns.

Rhoddyd y Gatradd ar 'aleri'
yn union ar ôl cael y newydd, a
chysylltwyd â phenaethiaid yr Home
Guard a'r fyddin. Roedd y rhyfel, o'r

diwedd, wedi cyrraedd Deiniolen, ac
ambell hen sowldiwr, rwyf yn siŵr, yn
barod i gyflawni pob math o wrhydry
dros ei wlad.

Tua chanol yr wythnos, a ninnau
yng nghanol arholiad ffiseg yn ysgol
Brynrefail, gwelais ŵr tal, mewn clos
pen-glin, yn cyrraedd iard yr ysgol
mewn cerbyd, a gwelais ef yn diflannu
tua ystafell y prifathro.

Aeth tua chwarter awr heibio, ac,
yn sydyn, daeth Mr Thomas, yr
ysgolfeistr, i mewn i'r ystafell, a'i
wyneb yn fflamgoch. Dywedodd fel
oedd dau fachgen o'r dosbarth wedi
gwneud gweithred mor ddrwg, fel eu
bod wedi bradychu eu tad a'u mam, eu
hysgol, ac yntau, fel eu prifathro.

Dyfelaes prwy oedd y ddau fachgen
melltigedig yma oedd wedi dyfod â'r
holl warth ar eu pennau, ond synnais yn
fwy pan ddywedodd mai Dennis
Roberts ac Owen Jones oedd y
drwgweithredwyr. Cawsom orchymyn i
fynd i'w ystafell y foment yr oeddym
wedi darfod yr arholiad. 'Does dim
gwobr am ddyfalu sut lewyrch a
gawsom ar arholiad ffiseg y flwyddyn
honno.

Deallais mai Mr Chadwick,
'agent' y Faenol, a swyddog uchel yn yr
Home Guard oedd y gŵr trowsus
pen-glin. Roedd Mr Thomas, yr
ysgolfeistr, yn swyddog pwysig yn y
mudiad hefyd.

Ar ôl cael pregeth hir a llym am ein
trosedd, daeth amser y cosbi. Cawsom
ein dau ddeg cansen ar bob llaw, a deg
ar ein tinau. Gorchwyl go anodd oedd
ysgrifennu nag eistedd am rhai
diwrnodiau.

Pan gyrhaeddais adref o'r ysgol,
gwelais fod mam wedi ei 'styrbio yn
arw. Roedd wedi cael ymweliad gan
Mr Chadwick, ac roedd hwnnw wedi
proffwydo beth a ddigwyddai i fachgen
mor ddrwg. Dywedai mai diffyg
magwriaeth oedd yn gyfrifol am
ffasiwn ymddygiad ac mai Borstal a
gwaeth oedd yn ein disgwyl.

Bu'r heddlu yn ein tŷ o leiaf bedair
gwaith, a chefais fy holi yn
ddi-drugaredd. Aeth y peth ymlaen am

wythnosau lawer, ond, o'r diwedd,
penderfynodd rhyw uchel swyddog yn
rhywle roi maddeuant inni am y tro.

Wrth edrych yn ôl, anodd yw
dychmygu fod dynion mor flaenllaw
mewn cymdeithas wedi cymryd y peth
gymaint o ddifrif. Rhyfedd na fuasent
wedi cysidro mai dau fachgen, gydag
amser ar eu dwylo, oedd yn gyfrifol am
y peth.

Efallai, hefyd, ym mwrlwm y
cyfnod, fod pawb yn mwynhau 'chware
sowldiwr'. Mae un peth yn sicr, (fel
dywedir yng nghân yr ysgol), hyd yn oed
'Forty Years On' wna' i byth faddau i
'Ŵr y Faenol'.

Yr eiddoch yn gywir,

Owen Jones,
(Now Chris)

YR ECO ETO'N COSI'R COF

Annwyl Olygydd,

Diolch yn fawr am eich gair o
gydymdeimlad â 'mrawd Dei a minnau
yn ein profedigaeth o golli tad annwyl
sef William J. Jones, Prestatyn gynt o
Gwm-y-Glo. 'Roedd fy nhad yn
flaenor yng nghapel yr Anibynnwyr,
Cwm. Er bod ein hiraeth yn fawr, mae
gennym atgofion melys iawn; braint
oedd cael ei gwmmi am gyhyd o amser.

Cefais hwyl wrth ddarllen llythyr
'Cyfaill' ar dudalen Chwaraeon yr Eco
(rhifyn 57) a chwithau, y golygydd yn
ateb ac yn sôn bod tymor y chwarae
marblis ar ddechrau. Mi fyddwn wrth
fy modd pan yn blentyn yng
Nghwm-y-glo flynnyddoedd maith yn ôl
bellach, pan fyddai tymor y marblis
ymlaen, mam yn gwnio bag i ddal y
marblis wedi eu prynu nhw yn siop
'Sharp', fe ddaeth amser pan oedd rhai
a lliwiau llws arnynt i'w cael. Colli
llond bag ambell waith, a chrio'r holl
ffordd adref, ennill dro arall a sgipio yn
llawen adre y tro hwnnw.

Ar y llaw arall mae eich hysbyseb o'r
Sioe Gwningod yng Nghanolfan
Cwm-y-Glo yn dod ag atgof annymunol
iawn i fy meddwl. Cefais gwningen
Angora yn anrheg pen-blwydd gan fy
rhieni pan oeddwn yn byw yn
Llys-y-gwynt, Cwm-y-glo. 'Roeddwn
wedi dotio yn lân gyda'r anifail gwyn
llws, a 'nhad wedi gwneud cwt
arbennig iddo, ond pan ddeuthum adref
o'r Capel un nos Sul, 'roedd y gwningen
wedi diflannu. Welsom ni byth mohoni;
dirgelwch fu am byth. 'Roedd yn
ymddangos ei bod yn amhosib' i'r
gwningen ddiplannu ohoni'i hun. Cefais
hunllef bob nos bron am amser
maith. Fe achosodd y digwyddiad
strach mawr i mi am hir iawn.

Mae Mary Lloyd Williams yn sôn
am waith 'Dewi Havesp' yn rhifyn 57
hefyd. Fel amryw, 'rwyf innau, yn hoff
iawn o englynion Dewi Havesp, 'rwy'n
cofio gyrru englyn o'i waith a'r
'Peiriant Gwnio' i'm taid (teiliwr oedd
taid, fel Dewi Havesp). Dyma'r
englyn:

Rho wna'r teiliwr haearn — ei bwythau
Byth bythoedd sai'n gadarn;

Er gwaetha rhegfa rhagfarn

Fe rua ar fwrdd fore'r Farn.

'Roedd taid wedi cadw'r englyn yn
ofalus yn boced ei wasgod. Fe fyddai yn
dweud bob amser nad oedd gan Job
ddim amynedd i gymharu â theiliwr.
Fel y dywed Perisfab, mae'r Eco yn
dod a ddoe yn ôl, diolch yn fawr.

Yr eiddoch yn gywir,

(Mrs) Catherine E. Roberts, (Betty)

7 Oxley Links Road,
Wolverhampton

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

BRYNREFAIL

DIOLCH - Dymuna Marian Evans, Min-y-Don, Brynrefail ddiolch o galon am y llun cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd, yn ddeunaw oed, gan y teulu a'i ffrindiau oll. Hefyd i'w chyd-weithwyr ym Mhlas Pengwaith. Carai yn arbennig ddiolch i Mr T.H. Williams am y penillion hyn.

I MARIAN YN DDEUNAW OED

Wel, Marian ddel fy nghariad
Maddeua'r gair am dro
Mae clychau dymuniadau
Yn tincian drwy y fro, -
A wir mae 'nghloch fach innau
Yn tincian, glyw di hi?
A thithau heddiw'n Ddeunaw
Mae'n rhaid dy gyfarch di.

Yr wyt yn haeddu rhigwm
A cherdyn, debyg iawn, -
O serch a chariad Marian
Dy galon sydd yn llawn,
Mae'r wawr yn nwf'n dy lygaidd
Y fenyw ysgafn droed
Rhaid mentro rhoddi cusan
I ti yn Ddeunaw Oed.

Rhaid dweud dy fod yn hoffus
A gweithgar, dyna ffaith,
Croesawus iawn bob amser,
Wyt ti ym Mhlas Pen Gwaith,
A chofia Marian annwyl -
Fod gwên a swyn o hyd
I ferch fel ti yn sicr
Yn fwy o werth na'r Byd.

Ac er nad oes hyd yma
Fawr flagur ar y coed, -
Yn oerni Mawrth 'rwy'n canu
I ti yn Ddeunaw Oed,
A chofia gadw'n siriol
Rhag peri imi siom,
'Rwyf wedi gwneud ystafell
Yng nghalon Yncl Tom.

Mi wn nad wyf yn perthyn
Un dafn o waed i ti
P'run bynnag o hyn allan
Fe fyddi di i mi

Yn un o'm cyfeillesau
Yn sicr dirion fun,
Parhaed y cyfeillgarwch
Wrth iti fynd yn hyn.

Hwyl fawr! ar Fawrth y chweched
Un naw wyth deg ac un,
Telynau Pen-blwydd hapus
Sydd heddiw ar ddi-hun.
Pob tant sydd yn dymuno
I ti yn awr Hwyl fawr!
A Hwyl Ddymunaf finnau,
Dy Yncl Tom, yn awr

T.H. Williams

YR URDD - Dydd Sadwrn, Mawrth 7
bu'r plant yn cymryd rhan yn
Eisteddfod Gylch yr Urdd a
gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail.

Buont yn cystadlu mewn amryw o
gystadleuthau megis partion canu,
côr a chydadrodd ynghyd â
chystadlaethau unigol.

Hyfforddwyd y plant gan Miss
Lowri Prys Roberts, Mrs Heulwen
Evans a Mrs Ifanwy Jones.

Yn y gystadleuaeth i adrannau
pentref daeth y parti Cerdd Dant yn
ail. Bydd y côr yn mynd ymlaen i'r
Eisteddfod Sir a gynhelir ym Mangor
ar ddydd Sadwrn, Mawrth 28.

Nos Lun Ebrill 6 cynhelir noson
goffi, 'moes a phryn' yn Neuadd
Ysgol Cwm-y-glo am 7 o'r gloch. Pris
mynediad, oedolion 20c, plant a'r
henoed, 10c. Dewch yn llw.

CLWB MAMAU - Yng nghyfarfod y
mis yn Nhŷ Glas, trefnwyd cwis gan
Moira Ellis. Rhoddwyd anrheg y mis
gan Helen Roberts, ac fe'i enillwyd
gan Sheila Williams. Rhoddwyd y te
gan Margaret Wardle a Jill Harris.

Clwb Pedwarugain - enillwyd mis
Chwefror - 6ed: 1. Eurwyn Williams,
2. John Williams, 3. H.J. Jones. 13eg:
1. Bobby Roberts, 2. Sheila Williams,
3. Eifion Roberts. 20fed: 1. Colin
Wager, 2. Margaret Jones, 3. Gwyn
Mowll. 27ain: 1. Peter Casey, 2. Betty
Owen, 3. Len Parry.

DEINIOLEN

Y SEINDORF - Enillwyd Clwb 200 mis
Mawrth: 1. £25 - Rhif 47, Mrs M.
Parry, 1 Minffordd, Llanrug. 2. £15 -
Rhif 10, Mrs W. Parry, Bro Dawel,
Deiniolen. 3. £5 - Rhif 90, Mr W.G.
Morris, Tŷ Oer, Clwt-y-bont.

Ar Ddydd Gwener y Grogolith bydd
y Seindorf yn teithio i Southport.
Byddant yn cystadlu yng
nghystadleuaeth Pontins. Dyma'r
gystadleuaeth gyntaf o dan
arweiniad yr arweinydd newydd Mr
Dennis Williams o Lanfairpwll. Pob
lwc iddynt.

Ar Ebrill 2il bydd cyngerdd gan y
Seindorf yn Ninorwig gyda'r elw tuag
at y Cymorth Nyrsio.

DIOLCH - Dymuna Miss Ciss
Rowlands, Pen yr Olchfa, Clwt-y-bont
ddiolch o galon i bawb o'r teulu,
cymdogion a chyfeillion am bob
arwydd o garedigrwydd a
dderbyniodd yn ystod ei harhosiad

yn Ysbyty Môn ac Arfon yn
ddiweddar. Diolch hefyd i'r meddyg
teulu, meddygon a gweinyddesau'r
ysbyty am eu gofal trosti. Diolch
cywir i bawb.

Dymuna Mrs Mary E. Hughes, 26
Rhydfadog ddiolch i bawb am yr
anrhegion a chardiau a dderbyniodd
ar ddathliad ei phen-blwydd yn 80
oed.

Dymuna Rowena a Dyfed Rowlands,
42 Pentre Helen ddiolch i'w teulu,
ffrindiau a chymdogion am yr amryw
anrhegion ac arian a dderbyniasant
ar achlysur genedigaeth eu merch
fach, Iona, gan ddiolch i bawb.

DYMUNIADAU DA - oddi wrth ei holl
ffrindiau i Barry Wardle sydd wedi
ymuno â'r Ffiwsilwyr Cymreig, ac
sydd ar hyn o bryd yng
Nghrughywel, Powys. Pob hwyl iti,
Barry.

DINORWIG

DIOLCH - Dymuna Miss Iona Wyn
Williams, 12 Maes Eilian Dinorwig
ddiolch o galon i'r teulu, perthnasau,
cyfeillion a chymdogion, hefyd staff
Glynrhonwy, Llanberis am y cardiau,
arian ac anrhegion a dderbyniodd
ganddynt ar ddathlu ei phen-blwydd
yn 18 mlwydd oed, Chwefror 16.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL
- nos lau, Chwefror 19 - yn y
Ganolfan, cafwyd sgwrs ddiddorol
gan Mr Gwilym Owen, H.T.V.
Amlinellodd ei yrfa ym myd y teledu.
Cyflwynwyd y siaradwr i'r aelodau
gan y Parch Ifor L. Williams, a
thalwyd diolch gan Mr Hugh
Thomas, Bro Elidir.

Nos lau, Mawrth 5 - yn y Ganolfan
cynhaliwyd cyfarfod er dathlu Gŵyl
Ddewi. Mwynhaodd yr aelodau bryd
o gawl a danteithion eraill. Yn dilyn
cafwyd cyngerdd gan aelodau'r
Gymdeithas. Cymerwyd rhan gan
deulu Tŷ'r Ysgol, mewn canu
unawdau a deuawd. Eitem ar y piano
gan Miss Alwena Morris, Cefn Coch;
cwis wedi ei drefnu gan Miss Nellie
Wyn Jones, Tŷ'n Fawnog, darlenniad
o lythyr at Ddewi Sant. Talwyd diolch
gan y Parch Ifor L. Williams.
Llywyddwyd gan Mr O.R. Williams, 2
Bro Elidir. Trefnwyd a pharatowyd y
swper gan y pwyllgor. Yr
ysgrifennydd yw Mrs Megan Morris,
Minffordd, a'r trysorydd yw Mrs Dilys
Williams, Tŷ Capel, Dinorwig.
Ail-etholwyd y swyddogion a'r
pwyllgor at y tymor nesaf.

CYFARFOD GWEDDI BYD-EANG Y
CHWIORYDD - Cynhaliwyd
gwasanaeth o Ddydd Gweddi
Byd-Eang y Chwiorydd, yng Nghapel
Dinorwig ar Mawrth 6. Yr arweinydd
oedd Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel. Yr
organyddes oedd Mrs M.E. Hughes,
Groeslon Uchaf. Siaradwyd ar y
thema 'Eiddo yr Arglwydd y Ddaear'
gan Mrs Katie L. Hughes, 2 Maes
Eilian. Cymerwyd rhannau eraill gan
Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron, Mrs
Alice Griffith, Tan y Bwlch, Mrs
Megan Morris, Minffordd, Mrs
Maggie Roberts, 8 Maes Eilian, Mrs
Annie Roberts, 3 Maes Eilian, Mrs
Jennie Williams, 12 Maes Eilian, Miss
Elizabeth Thomas, Llidart y Clo, Mrs
Katie Griffith, Arwelfa, Mrs Dora
Jones, Bryn Hyfryd, Mrs Medwen
Griffith, Foel, Mrs Maggie Evans,
Dublin House. Yr ysgrifennydd a
threfnydd y cyfarfod oedd Mrs Nellie
Williams, 2 Bro Elidir.

MARW - Yn Ysbyty Eryri Caernarfon,
Mawrth 9 bu farw Miss Mary E.
Davies, Felin Bach, yn 72 mlwydd
oed. Cydymdeimlir â'i hunig chwaer
Miss Florrie Davies, Felin Bach, a'r
cysylltiadau teuluol eraill yn eu
profedigaeth.

DIOLCHIAU DAU - Dymuna Florrie

Davies, Felin Bach, ddiolch o galon
i'w holl pherthnasau, cymdogion a
ffrindiau am bob arwydd o
gydymdeimlad a ddangoswyd tuag
ati yn ei phrofedigaeth chwerw o golli
ei chwaer annwyl. Diolch o galon i
bawb am y blodau hardd, cardiau,
rhoddion a llythyrau sy'n llawer rhy
niferus i'w hateb. Diolch yn arbennig
i'r meddyg teulu a'r holl
weinyddesau a fu mor ffyddlon a
charedig wrthi ar hyd ei blynyddoedd
o waeledd. Diolch hefyd i feddygon a
gweinyddesau Ysbyty Môn ac Arfon,
ac Ysbyty Eryri Caernarfon am eu
gofal tyner a diflino.

O'R YSBYTY - Da gennym ddeall bod
Mrs Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian
wedi dod adref o Ysbyty Môn ac
Arfon wedi triniaeth lawfeddygol.
Parhaed i wella.

COFION - Anfonir cofion at yr
ardalwyr sy'n cwyno yn eu cartrefi.

MARW - Yn ysbyty Dewi Sant,
Bangor bu farw Nyrs Grace Jones yn
93 oed. Treuliodd flynyddoedd lawer
yn byw yn Blue Peris. Gweddwyd oedd
i'r diweddar Mr J.R. Jones. Am 10
mlynedd olaf ei hoes bu'n byw ym
Mhlas Pengwaith, Llanberis. Roedd
yn aelod yng Nghapel Dinorwig
(M.C.). Cydymdeimlir â Mrs Nesta
Jones, 2 Llys-y-gwynt, Penisarwaun
(ei chwaer yng nghyfraith) a'r
cysylltiadau teuluol i gyd.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL
- Nos lau, Mawrth 19 yn y Ganolfan,
cafwyd cyngerdd gan barti Lleisiau'r
Gweunydd, dan arweiniad Mrs Einir
Wyn Williams, Rhiwlas. Cafwyd
datganiadau o amrywiol ganeuon o
wahanol wledydd; adroddiad a
datganiad ar y gitâr. Mwynhawyd y
cyngerdd yn fawr gan yr aelodau.
Cyflwynwyd y parti i'r aelodau gan
Miss Elan Wyn Jones a thalwyd
diolch gan Mr O.R. Williams.

Dyma'r cyfarfod olaf o dymor
llwyddiannus a diddorol iawn.

DRAENOG



Glywsoch chi fod y Cyngor wedi
bod yn agor beddau mewn mynwent
yn y fro yn ddiweddar, gan
ddefnyddio 'Tarw Dur' i wneud y
gwaith? Be' ddaeth heibio wedyn a
disgyn i mewn i un o'r beddau ond
buech oedd wedi crwydro o'i chael!
Rhaid bod y 'Tarw Dur' yn dipyn o
'bishyn' i honno fod yn fodlon i'w
ddilyn i'r bedd!

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD



Plant Ysgol Tanycoed, Penisarwaun tua'r flwyddyn 1943. Enwau os gwelwch
yn dda. Llun trwy garedigrwydd Mrs Jones, 13 Bryntirion.

LLANRUG

EISTEDDFOD YR URDD – Llongyfarchiadau i unigolion a phartion o'r Ysgol Gynradd ac Ysgol Brynrefail ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Gylch yr Urdd. Pob lwc iddynt yn Eisteddfod Sir Eryri.

BEDYDDIO – Pnawn Sul, Mawrth 8 yn Ffestri Pontrhythallt bedyddiwyd Amy Elizabeth, merch fach Gareth a Cynthia Mary Roberts, 7 Bro Rhythallt; gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts.

DYDD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD – Pnawn Gwener, Mawrth 6 cynhaliwyd cyfarfod gweddi gan Chwiorydd o wahanol eglwysi'r ardal o dan arweiniad Mrs N. Roberts, Annedd Wen. Rhoddwyd yr anerchiad ar 'Eiddo yr Arglwydd y Ddaear' gan Mrs M. Lloyd Williams. Mrs Jane Humphreys, Las Ynys oedd yn cyfeilio.

Y GOBEITHLU – Cafwyd noson olaf tymor y Gobeithlu ar Chwefror 23. Cymerwyd y rhan agoriadol gan Christine a Tracey Jordan, Cefn Elan. Bu amryw o'r plant yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth arlunio ac am ganu sol-ffa. Mrs Mair Jones, Ogwen oedd yn cyfeilio. Llywyddwyd gan Mrs N. Roberts, a diolchodd i'r plant ac i'r cyfeillion fu'n helpu drwy'r tymor.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR – Treuliwyd noson ola'r tymor gyda Swper Gŵyl Ddewi yn yr Ysgol Gynradd. Trefnwyd y wledd odidog gan Mrs Joan Williams, Llys Llywelyn ynghyd â gweithwyr y gegin a chyfeillion. Cafwyd cyngerdd yn dilyn o dan ofal Mrs Mair Jones, Ogwen a Mrs Lily Horman, Venice. Cynorthwywyd ar y delyn gan Mr Kenneth Morris. Llywyddwyd gan y Parch W.O. Roberts. Y wraig wadd eleni oedd Mrs Sally Williams, Caernarfon, sydd yn enedigol o'r ardal ac yn gyn-aelod o Eglwys y Capel Mawr. Rhoddodd anerchiad amserol, a chyfaddas iawn i'r amgylchiad. Diolchwyd yn gynnes i bawb am noson i'w chofio gan Mr John Wyn Owen, yn cael ei gefnogi gan Mr Gwilym Owen. Dymunir diolch yn arbennig i Mrs Helen Lewis, Dwyfor, gofaluwraig yr ysgol am ei gwasanaeth gwerthfawr.

O'R YSBYTY – Bu Mrs Margaret Williams, Elan Wen yn ysbyty Gallt-y-Sil am wythnosau. Balch ydym o'i chroesawu gartref. Dymunwn iddi bob bendith. Hefyd ei wyres fach, Caren Wyn. Bu hithau yn ysbyty Dewi Sant yn ddiweddar. Da gennym ei bod wedi llwyr wella erbyn hyn.

CLWB BLODAU'R GRUG – Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol yn Neuadd Goffa ar Fawrth 12. Y swyddogion am 1981 yw: Llywydd, Y Parch Gwynfor Williams; Is-lywydd, Mr John Williams, Gweledfa; Ysgrifennydd, Mrs J. Parry, Morannedd; Is-ysgrifennydd, Miss Meirwen G. Roberts, Ganllwyd; Trysorydd, Mrs Myfi Roberts, 2 Tai Plastirion; Is-drysorydd, Miss A.C. Owen, Glan Llŷn, ynghyd â phwyllgor o wahanol eglwysi'r ardal. Diolchodd y Parch Gwynfor Williams i Miss Dilys Jenkins am ei gwaith fel ysgrifennydd ac i aelodau'r pwyllgor blaenorol am eu ffyddlondeb.

Cydymdeimlwyd â Mrs K. Griffith, 20 Hafan Elan yn ei phrofedigaeth o golli mab, sef Mr Tom Griffith; Mrs K.A. Pritchard, Tanycoed a Mrs M. Pritchard, Hafan Elan – colli chwaer yng nghyfraith. Mr John Williams, Gweledfa a Mr J. Williams, Bryn Coch Terrace – colli chwaer.

Dymunwyd adferiad buan i Mrs Dora Jones, Y Fedwen; Mrs Roberts, Arwyn; Mrs J. Hughes, Oerddwr; Mrs Annie Parry, Bryn Coch Terrace; Miss Mary Owen, 3 Tai Plastirion a

Mrs Nesta Pritchard. Llongyfarchwyd Mrs M. Lloyd Williams ar gael ei hethol yn Flaenores yng nghapel Pontrhythallt. Rhoddwyd y te gan Mrs Kenny Owen, Mrs Williams, Mrs Jones a Mrs Pritchard (i gyd o Hafan Elan). Enillwyd y raffl gan Mrs Williams, Llys Meirion.

Mae'r tâl aelodaeth am y flwyddyn, sef 25 ceiniog yn ddyledus yn awr.

MARW

Dystynnwn ein cydymdeimlad dwystaf â Mr Richard Pritchard, Tŷ Newydd yn ei brofedigaeth o golli'i briod, Mrs Eirlys Pritchard.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR – Cafwyd noson goffi nos lau, Mawrth 12. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs N. Roberts, Annedd Wen. Anfonwyd cofion at y rhai oedd yn wael ac yn yr ysbyty. Cydymdeimlwyd â Mrs K. Griffith, 20 Hafan Elan ym marwolaeth ei mab, Mr Tom Griffith ac hefyd â Mr R. Pritchard, Tŷ Newydd ym marwolaeth ei briod, Mrs Eirlys Pritchard. Diolchwyd i bawb am roddion, ac i Mrs M. Williams, Gweledfa a Mrs N. Roberts, Annedd Wen am y coffi. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 2 am saith o'r gloch.

AR Y TELEDU – Yn ystod y mis gwelwyd Terry a Jean Lloyd-Jones, Llys Elen ar y rhaglen Siôn a Siân.

GWELLHAD BUAN – Dymunwn adferiad buan i Mrs Dora Jones, Y Fedwen, ac hefyd i Mrs Gwawr Thomas, Alwyn. Mae Mrs Thomas ar hyn o bryd yn yr ysbyty. Hefyd i Mrs Roberts, Arwyn sydd wedi bod yn cwyno yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Y SEINDORF – Ar Fawrth 1 aeth aelodau hynaf y Seindorf i Glwb Crosville, Caernarfon i gymeryd rhan mewn cyngerdd i ddathlu Gŵyl Ddewi.

Mae'r gystadleuaeth nesaf yn Pontins, Southport ar Ebrill 17. Bydd y bws yn gadael Llanrug am 7.45 a.m.

MERCHED Y WAWR – Gwahoddwyd cangen Bethel i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda ni ar Fawrth 10 yn Yr Ysgol Gynradd. Miss Phyllis Ellis oedd yn y gadair. Cafwyd eitemau gan y ddwy gangen mewn côr adrodd, parti canu, dwy ddramodig, a chyd-ganu o dan arweiniad Beth Ann Williams, gyda Mrs Megan Roberts yn cyfeilio. Trefnwyd lluniaeth gan holl aelodau Llanrug. Diolchodd Mrs J.C. Williams i bawb a gymerodd ran a chefnogwyd ar ran Cangen Bethel gan Mrs Mair Jones.

Croesawodd Miss Ellis, Mrs J. Rees Hughes yn ôl ar ôl gwaeledd, a chydymdeimlwyd â Mrs Joan Griffith ym marwolaeth ei brawd yng nghyfraith.

Apeliwyd am help at y Ffair Wanwyn a gynhelir yng Nghaernarfon, ddydd Sadwrn, Ebrill 11 pan fydd Cangen Llanrug yn cymryd gofal o'r stondin 'Pethau Newydd'. Derbynnir cyfraniadau gan Mrs J.C. Williams, Bod Fair.

LLWYDDIANT – Llongyfarchiadau i Gwyn Thomas, Alwyn ar ennill ei drydydd B.D.S. (British Dental Surgeon) yn yr Ysgol Ddeintyddiaeth yn Ysbyty Guy's, Llundain.

CYDYMDEIMLIR – Â Mr Alan Reed Davies, Bryn Myfyr, Pontrhythallt ar farwolaeth ei dad yng Nghaernarfon.

DIOLCH – Dymuna Mrs Dora Jones, Y Fedwen, ddiolch i'w pherthnasau a'i chyfeillion am y caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei gwaeledd.

UNDEB Y MAMAU – Cyfarfu Undeb y Mamau yn Y Rheithordy ar Fawrth 5 ac agorwyd y cyfarfod drwy weddi gan y Rheithor. Mrs Williams, Y Rheithordy oedd yn llywyddu a hi hefyd a ddarparai'r te. Y Wraig Wadd oedd Dr Enid Pierce Roberts, Bangor

a rhoes sgwrs ddiddorol, ddifyr ac addysgiadol ar Ddewi Sant gan ddangos mor fawr oedd ei ddylanwad arnom fel cenedl. Mrs Mona Mai Griffiths a ddiolchodd am y te a bu i amryw o'r aelodau fynegi eu gwerthfawrogiad o ddarlith Dr Roberts. Diweddiwyd y cyfarfod drwy weddi.

CRONFA'R FYNWENT – Dymuna y Rheithor a'r Wardeiniaid ddiolch i bawb a roes gyfraniadau at Gronfa'r Fynwent. Y mae amryw wedi rhoi rhoddion ond y maent yn dymuno peidio cael eu henwi. Derbyniwyd fel a ganlyn hyd yn hyn: Mr Emyr Jones, Hafan Elan, £2; di-enw £2; di-enw, £2; di-enw £5; Mrs Y. Thomas, Croesoswallt, £5; Mrs Idris Jones, Goleufryn, Waunfawr, £5; Mr a Mrs Ransom, 9 Bryn Moelyn, £1; Mrs M.I. Ellis, Gors, Bryn Refail, £1; Mr a Mrs G. Davies, Bodawel, Llanrug, £5; Mrs M. Jones, Tai Brynafon, Llanrug, £2; Mrs N.W. Jones, 1 Bro Rhyddallt, Llanrug, £5; Mrs J.E. Watkins, Dolwen, Cwm y Glo, £2; Mrs M. Chick, Mairlys, Cwm y Glo, £1; Mrs Morris, Gwynant, Caernarfon, £3; Mrs Clarke, Is y Gaer, Pontrhythallt, £2; di-enw, £5; di-enw, £3; di-enw, £2; di-enw, £1.

MARW – Yng nghartref ei merch yn Edgware, Middlesex, bu farw Mrs M.E. Shilton, Tan-y-Coed Cottage gynt a hi mewn oedran teg. Daeth Mrs Shilton i fyw i Dan-y-Coed rai blyneddau yn ôl ac ni fu yn hir cyn ennill ei phlwyf yno. Gwraig fonheddig ydoedd ac iddi rhyw urddas arbennig ac yr oedd yn llawn


hiwmor a chyda gwên barod i bawb ar bob achlysur. Er ei bod dipyn dros ei deg a phedwar ugain cadd law driniaeth i'w llygad a'i galluogodd i adennill ei golwg a rhyw ddeuddydd cyn ei marw derbyniwyd llythyr oddi wrthi yn dweud ei bod yn dal i wneud lluniau, oherwydd yr oedd yn artist pur dda. Fe gofir yn hir amdani oherwydd ei chyfeillgarwch a'i hagosatrwydd. Tra y gallodd bu'n aelod ffyddlon o Eglwys Sant Mihangel ac wedi i fusgrellni ei dal yr oedd yn dal i dderbyn y Cymun Bendigaid yn gyson yn ei chartref. Cydymdeimlir â'i merched a'u teuluoedd yn eu galar.

MARW – Ar nos lau, Mawrth 5, 1981 bu farw yn Ysbyty Môn ac Arfon, Mr Tom Griffith yn 50 mlwydd oed. Ganwyd a magwyd Tom yn Llanrug, a dechreuodd weithio yn Chwarel Dinorwyd ar ôl gadael yr ysgol. Ar ôl dwy flynedd yn y "Welsh Guards", dychwelodd i'r chwarel.

Yn ystod y 19 blynedd diwethaf bu'n gweithio gyda Chwmni Ferodo, Caernarfon. Gwelwyd yn fuan ei gryfder fel arweinydd dynion â chwareae teg, ac fe'i hyrwyddwyd yn fuan i ben gweithiwr, ac yna i reolwr adran.

Roedd Tom o natur caredig, yn barod bob amser i helpu eraill, ac roedd pawb a'i adnabyddai yn uchel iawn eu parch tuag ato. Cefnogai dimau dartiau a phêl-droed Llanrug.

Dymuna Mrs Grace Griffith a'r teulu ddiolch yn fawr i bawb am eu cydymdeimlad a'u caredigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth.



"Dathlu Priodas Aur" – Drama fer, fer gan aelodau Merched y Wawr, Llanrug. O'r chwith i'r dde, Mrs E.W. Thomas, Mrs A. Smith, Mrs L. Horman, Mrs J.C. Williams a Mrs G.M. Jones.

YMDDIHEURWN – I Mrs N. Jones am wedi iddi dorri ei braich. Da deall ei beidio a dymuno gwellhad buan iddi bod yn holliaeth unwaith eto.

BETWS GARMON

TÂN – Trist oedd gweld Trosgol, un o dai hynaf yr ardal, wedi llosgi i'r llawr.

MARW – Ar ôl gwaeledd maith bu

farw Mr R.G. Read, 10 Tai Gwyrfa (Castell Cidwm gynt) yn Ysbyty Môn ac Arfon ar Fawrth 17. Cydymdeimlir â'i weddw yn ei galar.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

BETHEL

LLONGYFARCHIADAU – i Harri Jones a Keith Williams sy'n chwarae i dîm glas y clwb snwcer ar gyrraedd y rownd derfynol i barau yn adran B Cynghrair Snwcer Bangor a'r Cylch. Yn y gêm derfynol bydd Harri a Keith yn cyfarfod â dau o dîm Llanrug.

Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm ar gyrraedd y rownd derfynol cwpan y gynghrair am yr ail flwyddyn yn olynol. Y llynedd buont yn anlwcs iawn o golli o bedair ffrâm i dair, gobeithir fynd un yn well y tro yma yn erbyn tîm N.A.L.G.O. Arfon.

Llongyfarchiadau hefyd i Albert Hughes sydd wedi cyrraedd y rownd gyn-derfynol yn y gystadleuaeth i unigolion.

DIOLCH – Dymuna Gerallt Jones, Awel y Grug, 21 Cremlyn a Siân Lewis, 43 Llwyn Beuno, Bontnewydd ddatgan eu diolch i'r teulu a chyfeillion oll am yr anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur eu dyweddïad.

CLWB BRO BETHEL – Pnawn Mawrth, 10fed, cafwyd te arbennig i ddathlu Gŵyl Ddewi yn Festri Cysegr. Llywyddwyd gan Mr W.H. Jones, Bron Eilian. Y gŵr gwadd oedd Mr Charles Williams, y actor, yn ei ffordd ddi-hafal rhoddodd ei hanes – ei eni ar dyddyn bychan, ei hanes yn yr ysgol, yn dechrau gweithio, wedi meddwl mynd yn bregethwr ond aeth i ganlyn 'stalwyn', ond buan y rhoddodd y gora' i hyn. Daeth ei gyfle – Cynan yn anfon ato i ddod gydag ef i gymryd rhan mewn drama a fu mewn bri mawr 'Pobl yr Ymylon', yna mae wedi mynd ymlaen o nerth i nerth ar y radio a'r teledu. Cafwyd amser hapus iawn yn ei gwmni, a digon o chwerthin iach.

Roedd y canlynol wedi cael gwahoddiad hefyd, y Parch W.R. Williams, gweinidog y Cysegr, a mab Ch. Williams; y Parch Richard Jones, Ficar a chynghorydd Sirol, Mr Sam Jones, Cyngor Arfon; Mr Islwyn Jones, yr ysgolfeistr; Mr Ieuan W. Williams, Cadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol. Methodd y rhai canlynol a bod yn bresennol – y Parch Ronal W. Roberts, gweinidog Bethel; Mr Goronwy Jones, llywydd Pwyllgor yr Eisteddfod a Chynorydd Plwyf. Mr Geraint Ellis, Cynghorydd Plwyf. Gobeithir trefnu gwibdaith ym mis Mehefin. Y gŵr gwadd y tro nesaf – Mr Collwyn Williams, Swyddog Tân.

Diolchwyd i bawb gan y Parch Richard Jones.

Dymuna'r swyddogion ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn arian a nwyddau at y te, yr aelodau, a rhai y tu allan. Diolch yn fawr hefyd i'r chwiorydd a fu'n helpu i wneud y te, a'r meibion fu'n gosod y byrddau yn

barod.

Diolch yn fawr iawn i bawb.

MERCHED Y WAWR – Nos Fawrth, Mawrth 10 bu tua ugain o aelodau'r gangen ar ymweliad â Changen Llanrug yn dathlu Gŵyl Ddewi. Roedd parti canu a pharti cydadrodd Bethel yn cyfrannu tuag at adloniant y noson. Diolchwyd i gangen Llanrug am eu gwahoddiad a'u croeso gan yr Is-lywydd, Mrs Mair Jones, Glan Gors.

Nos Fercher, Mawrth 11, bu aelodau o gangen Merched y Wawr yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda Swper ym Mron Eryri, Llanberis, yn dilyn cafwyd adloniant gan Barti Eryri, a chyflwynwyd y parti gan ein Is-lywydd, Mrs Mair Jones, Glan Gors, oherwydd gwaeledd y Llywydd. Mwynhawyd noson ddiddorol dros ben, gydag ambell i Sgets a Chân. Diolchwyd i'r parti gan Mrs M. G. Williams, Gwylfa. Penderfynwyd anfon cerdyn i'r llywydd Mrs Madge Williams yn dymuno gwellhâd buan iddi.

Mrs Gweneirys Jones, y Waunfawr fydd yn arddangos ei gwaith sychu blidau yn y cyfarfod ar Ebrill 8.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL – Dathlwyd Swper Gŵyl Ddewi'r gymdeithas ym Mhlas Tan Dinas ar nos Wener, Chwefror 27, yn dilyn cafwyd noson hwyliog o ganu, gwneud llinell goll o 'Tri Gair Bach'. Yr oedd y noson yng ngofal y Parch W.R. Williams, T. Alun Jones a W.H. Jones. Pasiwyd i gael yr un pwyllgor am 1981-82.

Y CÔR – Erbyn hyn mae'r côr wedi ei ffurfio ac yn ymarfer am 8 o'r gloch bob nos Sul yn Festri Bethel. Mae criw da wedi ymaelodi ond fod prinder baswyr ac alto. Mae croeso i unrhyw un ymaelodi ond bydd croeso arbennig i faswyr ac alto. Nid yw'r aelodaeth yn gyfyngedig i Bethel, mae croeso i holl gantorion y cylch ymuno â'r côr dan arweiniad Robin Jones.

LLONGYFARCHIADAU – Llongyfarchiadau i Lyn Morgan, Llwyn Bedw ar gyrraedd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Fawrth 11 a dymuniadau gorau i Non Jones, 24 Bro Rhos fydd yn ddeunaw oed ar Fawrth 28. Dymuniadau gorau hefyd i Carys W. Jones, Arddol, Penrhos, fydd yn ddeunaw oed ar Ebrill 5 a Colin Humphreys, Is Helen fydd yn ddeunaw ar Ebrill 9.

YR URDD – Llongyfarchiadau i aelodau'r gangen a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Brynrefail a hefyd i'r aelodau a gafodd wob. Daeth y Parti Cerdd Dant yn gyntaf, daeth Angharad Price yn ail yn y gystadleuaeth piano dan 12, Paul Roberts yn ail am adrodd yn y gystadleuaeth i ddysgwyr dan 15, Manon Williams a ddaeth yn gyntaf am adrodd dan 15 a Meinir Williams a gafodd y drydedd wob am adrodd dan 12. Dymunir y gorau i bawb fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir.

Mae aelodau'r Urdd yn dymuno gwellhâd buan i Llinos Owen sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty ac yn anfon eu llongyfarchiadau i Ann Hopcyn ar enedigaeth bachgen bach, Trystan.

Nos fory, Mawrth 27, bydd tymor y gaeaf yn dod i ben gyda disgo gan rai o'r aelodau.

Y CARNIFAL – Nos Wener, Ebrill 10 am 6.30 cynhelir Noson Goffi yn y Neuadd, gyda'r elw yn mynd tuag at brynu gwisgoedd i Frenhines y Carnifal a'i gosgordd. Byddai pwyllgor y Carnifal yn ddiolchgar am bob rhodd tuag at y byrddau gwerthu (ar wahân i hen ddillad).

CYDYMDEIMLO – Ddydd Gwener, Mawrth 6 ar ôl gwaeledd hir bu farw Mrs Maggie Thomas, 13 Bro Rhos.

Estynnwn ein cydymdeimlad a'r teulu yn eu profedigaeth.

CLWB Y RHOS – Nos Lun, Mawrth 9 roedd y noson yng Nghlwb y Rhos dan ofal Mr Gwynfor Ellis. Roedd Gwynfor wedi trefnu i Mr Gwynfor Williams, Llanberis, swyddog gyda Gwasanaeth Ambiwylans Gwynedd i roi sgwrs ar y gwasanaeth. Diolchwyd i Mr Williams gan Geraint Elis.

Roedd y cyfarfod yn gyfarfod blynyddol ac yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd cymerodd Mr Islwyn Jones y Gadair. Dewiswyd y swyddogion canlynol ar gyfer tymor 1981-82 – Llywydd, Mr John Jones, Eryri; Is-lywydd, Mr Evan Owen, Corra Linn; Trysorydd, Mr Dafydd Williams, Hafod; Ysgrifennydd, Mr John Eryl Thomas.

CYDYMDEIMLO – Ddydd Gwener, Mawrth 13 yn sydyn yn ei chartref bu farw Mrs Jones, Cefn. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Y CARNIFAL – Nos Wener, Mawrth 6 mewn disgo yn y Neuadd dewiswyd brenhines y carnifal a'i gosgordd. Diolchwyd i Shirley, Ceri a Gwenno am eu gwaith y llynedd. Gwahoddwyd Mr Brian Williams, Cefn y Gwynt, i dynnu enwau'r cwrt am 81-81 a dewiswyd Mari Wyn Owen yn Frenhines, Eluned Mai Roberts yn Lord Chamberlain a Helen

SWYDDOG NEWYDDI 'CURIAD'

Mae Wynne Melville Jones sydd wedi ffurfio ei gwmni cysylltiadau cyhoeddus ei hun, Cwmni Strata, wedi cytuno i weithredu fel swyddog hysbysebion a chysylltiadau cyhoeddus y cylchgrawn poblogaidd 'Curiad'.

Credir mai dyma'r cylchgrawn Cymraeg cyntaf i gymryd cam o'r fath ac mae'n brawf pellach o fwriad 'Curiad' i fod yn hunan gynhaliol drwy ddenu hysbysebion – ffon fara unrhyw newyddiadur gwerth ei halen – ac i aplio at y miloedd o Gymry Cymraeg sy wedi ail gydio yn yr arfer o ddarllen Cymraeg drwy'r papurau bro.

"O ystyried bod tua 120,000 yn darllen y papurau bro a 270,000 yn gwylio a gwrando ar raglenni teledu a radio Cymraeg yn rheoliadd yn ôl arolwg barn diweddar mae'r posibilïadau yn gyffrous. Fel un sy'n gysylltiedig â phapur bro 'dwi'n credu bod angen newyddiadur ysgafn a phoblogaidd fel 'Curiad' ar y Cymry Cymraeg. A'r gobaith yw denu'r cwmnïau masnachol mawr, y banciau a'r Cymdeithasau Adeiladu i hysbysebu'n gyson ynddo. I'r perwyl hwn byddwn yn gwario'n helaeth ar baratoi deunydd a fydd yn dadlau ein hachos fel cyfrwng hysbysebu dylanwadol" meddai Mr Jones.

Mae Mr Jones yn gyn-bennaeth Adran Gyhoeddusurwydd mudiad yr Urdd. Mae'n briod gyda dau o blant ac yn byw yn Llanfihangel Genau'r Glyn ger Aberystwyth. Mae'n aelod o banel golygyddol papur bro 'Y Tincer'. Ei rif ffôn yw Aberystwyth 828783.

Wyn Williams a Meinir Owen yn forynion.

APÊL DR. BARNARDO – Yn ddiweddar casglwyd swm o £43.38 o amgylch y pentref gan y canlynol: Mrs Delyth Evans, Y Ddôl, £6.41; Mrs Ann Hughes, Bron Gwynedd, £5.29; Mrs Nan Owen, Berwyn, £10.30; Mrs Eirlys Sharpe, Tregof, £7.65; Mrs Lynne Niel, Seion, £2.15; Mrs Lona Jones, Ystad Eryri, £5.52; Mrs Jennifer Jones, Tan y Buarth, £2.90; Gors Bach, £3.16.

Hoffai Mrs Nan Owen, Berwyn, Is-lywydd y Clwb Mamau ddiolch i aelodau'r Clwb a'r pentrefwyr am eu cymorth.

DIOLCH – Dymuna Mrs Bet Evans, Rhos Alun ddiolch i brifathro, athrawon, staff y gegin a phlant Ysgol Bethel a phawb a gyfrannodd tuag at y rhodd, ac am y dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniodd.

DIOLCH – Dymuna Lyn Morgan, Llwyn Bedw ddiolch i'w holl ffrindiau a pherthnasau am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael.

£5, Mr Oulton, Penisarwaun; £3, Er cof am P. Peris Jones, 10 Ffordd Deiniol, Deiniolen; £2, Mrs Mary E. Hughes, 26 Rhydfadog, Deiniolen; Di-enw, Deiniolen; Miss Florrie Davies, Felin Bach, Dinorwig; £1.50, Mr John Moxen, Bwrthyn, Llanbedrog; £1.20, Mrs M. Byrne, Aberhonddu; Mr W.F. Roberts, Backford, Caer; £1, Di-enw, Llanrug; Miss Muriel Hughes, Bexhill-on-Sea, Sussex; Miss Iona Wyn Williams, 12 Maes Eilian, Dinorwig; 40c, Mrs Rowlands, 11 Ffordd Deiniol, Deiniolen; 20c, Mrs C. McCarthy, Chitwell, Lerpwl.

PLYGU'R ECO

**Mae angen
gwirfoddolwyr i
blygu
ddiwedd EBRILL
ar gyfer MAI
NEUADD GOFFA
BETHEL**

**ddiwedd MAI
ar gyfer MEHEFIN
CANOLFAN
CWM-Y-GLO**

STORFA

Mace
O.R. & M.
PARRY

**Sgwâr
Llanrug**

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
â diodydd

COLEG PRIFYSGOL GOGLEDD CYMRU

Cynhelir Ysgol Undydd ar Ebrill 4ydd, 1981 10.00am – 5.00pm yn Narlithfa Newydd Adran y Celfyddydau i ddathlu canmlwyddiant geni

W.J. GRUFFYDD

1881-1954

Siaradwyr

D. Tecwyn Lloyd

('Y Golygydd a'r Gŵr Cyhoeddus)

William Lewis

('Beddau'r Proffwydi')

Derec Llywyd Morgan

('Rhai o gerddi'r bardd')

Alun Llywelyn-Williams

('Atgofion Disgybl')

Tâl aelodaeth. £1.60, yn cynnwys coffi a the. Anfoner am ffurflen ymrestru at:

Y Cyfarwyddwr, Adran Efyddiau Allanol, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, Gwynedd.

(Rhif Ffôn: Bangor

51151/Estyniad 494)

O6I90 – O CHWECH I NAW DEG!

Sylwch fod y teitl yn aros yr un fath hyd yn oed ar ei ben i lawr!

TUDALEN I'R
PLANT: HEN AC
IFANC
Gan
DYFRIN
Y DEWIN



ANGHENFIL Y JYNGL

'Roedd haul tanbaid canol dydd wedi distewi trydar yr adar, a'r unig sŵn i'w glywed yng ngwyrddni di-bendraw'r jyngl oedd su'r cicada. Nofio'n yr afon yr oedd Cristovao pan deimlodd y crynu trwm yn y pellter. Aeth ias o ofn i lawr ei gefn pan welodd dyrrau arian yn nofio i fyny'r afon tuag ato. Yr unig sŵn i'w glywed o'r anghenfil hwn oedd curiadau isel yr injan a'i gyrrai. 'Roedd Anghenfil y Jyngl bron wedi cyrraedd adre.

Anghenfil o waith dyn a nofiai i fyny afon Jari ym mis Ebrill 1978; anghenfil wedi ei adeiladu yn Japan ac wedi ei lusgo ar rafftau yr holl ffordd ar draws môr India a môr Iwerydd ac i fyny afon Amazon. Dyma'r anghenfil mwyaf erioed i nofio afon Amazon. O'r awyr, edrychai'r anghenfil fel boccs dur anferth; ddwywaith a hanner maint cae pêl-droed, a'i gaead yn agored i ddangos adeiladau ugain llawr o uchder yn ymestyn ohono. 'Roedd y cyfan yn pwyso 30,000 o dunnelli.

Wedi gosod yr anghenfil i orwedd ar sylfaen cadarn mewn tref newydd o'r enw Munuguba ar lan afon Jari, 'roedd angen ei fwydo. Llynca'r anghenfil 2,000 o dunelli o goed bob dydd; eu llosgi yn ei grombil a chynhyrchu digon o drydan i gynnal melin mwydion-papur, cloddfa kaolin a threfi newydd Monte Dourado, Beiradao a Beiradinho. Yma yng nghanol jyngl yr Amazon y mae fferm goed fwyaf y byd; cymaint os nad mwy na holl arwynebedd Cymru!

Daniel Keith Ludwig yw perchen y fferm goed hon a'r gwahanol weithfeydd ynglŷn â hi. Prynodd yr ardal yn 1967 am dair miliwn o ddoleri, ac y mae wedi gwario 180,000 o ddoleri y diwrnod am 13 o flynyddoedd i ddatblygu'r ardal. Dylai'r elw o'r fath fenter fod yn aruthrol, ond dim ond yn y blynyddoedd diwethaf hyn y dechreuwyd gwneud elw. Mae'r perchennog bellach yn 83 mlwydd oed, yn ddi-blant, ac yn bwriadu ewyllysio'i holl ffortiwn i'r gronfa ymchwilio i wella canser.

Mae llywodraeth Brazil bellach yn ystyried cronfa ddŵr anferth ar afon Jari; cronfa a fydd hefyd yn cynhyrchu trydan rhad. Yn ystod y blynyddoedd nesaf hyn felly, gwelir datblygiadau modern iawn yn y fforestydd trofannol hyn ger moryd afon Amazon.

Llyfrgell y Sir
CANGEN LLANBERIS
Oriaau newydd cangen
Llanberis o Ebrill 6
ymlaen fydd:-

Llun: 4.00-7.00
Mercher: 10.00-1.00; 2.00-4.30
Gwener: 10.00-12.30; 2.00-6.00

Dalier Sylw
Bydd y gangen ar gau ar Nos
Fawrth

MWY O HANES YR ALAMO

Ydych chi'n cofio hanes yr 'Alamo' yn y rhifyn diwethaf? Anfonodd Mrs E. Jones, Awel-y-Grug, Bethel luniau i ddangos cofgolofn i arwyr yr Alamo yn San Antonio, Texas. Dyma ran o'i llythyr:-

"Dair blynedd yn ôl bûm yn ymweld â'r Alamo. Wrth gwrs, amgueddfa ydyw heddiw ac mae ynddo lawer o greiriau — llawysgrifau, mapiau, a hyd yn oed gyrlan o wallt Davy Crocket. Mae baneri pob talaith yn America yn hofran o amgylch, gan gynnwys baner Lloegr; a'r Ddraig Goch yn eu canol. Cynhwysir y Ddraig Goch oherwydd bod Cymry ymysg y rhai a golodd eu bywydau'n yr ymladd — Johnson Lewis, William Irvine Lewis a Thomas H. Roberts. 'Sgwn i ble yng Nghymru y deuai'r rhain?"


Mae merch Mrs Jones — Gwenno — yn byw yn San Antonio, a 'Gwynt Eryri' yw enw'i chartref.



Mrs Jones, y ferch, Gwenno a'i theulu o flaen cofgolofn yr Alamo.

SUT I GAEL WY I SEFYLL
AR EI BEN


Rhowch halen ar y bwrdd a gosod yr wy i eistedd arno. Unwaith y bydd yr wy'n berffaith ddiogel, gellwch chwythu'r gronynnau halen i ffwrdd yn ofalus, gan adael yr wy'n sefyll ar ei ben. Bydd ychydig o ronynnau halen yn ei gadw rhag disgyn — gobeithio!



ATEBION I BOSAU DYFRIN

Sut oedd y ddau ffrind i rannu'r diod?


Tywallt y sudd oren o'r tun i'r cwpan nes byddai'r tun yn hanner gwag fel hyn:-



Mae'n amlwg bod hanner point wedi mynd ohono — ac felly mae hanner point ar ôl i'r ffrind arall.

Ateb i Gystadleuaeth mis Mawrth: Y cyntaf i'w ladd mewn damwain rheilffordd oedd William Huskisson, Aelod Seneddol dros Lerpwl. 'Roedd ar daith gyntaf trên o Lerpwl i Fanceinion ar Fedi 15, 1830. Pan arhosodd y trên i gael cyflenwad o ddŵr, aeth William Huskisson oddi ar y trên a sefyll ar gledrau lein arall. Daeth injan arall o'r enw y 'Rocket' a'i daro. Er iddo gael ei gario i ysbyty yn Eccles, bu farw y noson honno.

LLUN I'W
LIWIO



CARPEDI


ALUN GLYNJONES
(Wetton a Thomas)

LLENNI

14, Ffordd Garth, BANGOR Ffôn 53705
(gyferbyn â'r orsaf fysiau)

Gostyngiad sylweddol am arian parod
Gosodir pob carped am ddim

Dibynnwch ar ansawdd lle bo ansawdd yn cyfrif



LLWYBRAU NATUR

gan Leslie Larsen

Y mae swolegwyr yn dosbarthu anifeiliaid y byd yn rhai gydag asgwrn cefn ac yn rhai heb. Yna fe ddosberthir y rhai gydag asgwrn cefn yn adar, pysgod, mamaliaid, amffibiaid ac ymlusgiaid.


Yng ngwledydd Prydain chwe aelod o'r grŵp olaf sydd ar gael; ac yn ein bro ni pedwar: dwy neidr, sef gwiber a neidr fraith; a dwy enau goeg, sef neidr ddefaid a genau goeg ei hun. Anifeiliaid gwaed oer ydynt ac o'r herwydd nis gwelir dros y gaeaf. Gydag oerni ânt yn ddifywyd a swrth ac wedi cwsg o thua mis Hydref ymlaen; fe'u gwelir ar dywydd heulog ym Mawrth yn torheulo. Yn aml bydd nifer ohonynt wedi cordeddu yn ei gilydd mewn lleoedd addas yn cysgu i fwrw'r gaeaf.

O'm profiad i y genau goeg a'r wiber yw'r mwyaf cyffredin yn yr ardal. Yr oedd gwiberod yn gyffredin iawn o gwmpas Llanrug: ym Mharc Minffordd, Crawia, ar Gefn Du, a Chraig Fawr ger 'Stablau. Nid yw croen nadroedd yn tyfu, felly mae'n rhaid i'r neidr fwrw ei chroen o bryd i'w gilydd wrth iddi dyfu. Gwna hyn drwy grafu ei chorff yn erbyn carreg neu frigyn.

Pan oeddwn yn dysgu yn Ysgol Llanrug byddai plant yn aml yn dod a chroen-neidr wedi ei fwrw i'w roi ar 'fwrdd-natur'. Unwaith anfonodd gweithwyr, wiber fawr 2 droedfedd mewn potel i mi i'r ysgol. Wedi dangos y wiber i'r plant rhoddais y botel ar ei hochr ar lintel y ffenestr; ond ymhen ychydig yr oedd y plant wedi dychryn gan fod y neidr wedi peri i'r botel siglo yn fwyfwy ac yr oedd ar fin disgyn i'r llawr. Gan nad oeddwn yn hapus gyda'r rhagolygon o wiber yn rhydd yn y dosbarth yn brathu fferau'r plant, euthum â'r botel a'i chynnwys i'r afon ym Mharc Minffordd. Bore drannoeth yr oedd un o'r bechgyn wedi dychwelyd a'r botel, eto a'i chynnwys, i'r ysgol.

Gwelir y genau goeg yn fynych, yn gwibio i mewn ac allan o'r waliau cerrig sydd mor nodweddiadol o'n bro; hefyd ar dir gweddol sych a chynnes fel sydd ar Gefn Du a Chegin Arthur. Y mae ganddi un gamp ardderchog i'w hamddiffyn ei hun: os digwydd i aderyn neu ryw elyn o ran hynny gydio yn ei chynffon gall ddatgysylltu rhan ohono a dianc i ddiogelwch tra bo'r ymosodwr yn edrych yn hurt

GWIBER



ar ddarn o gynffon a'r darn blasus wedi diflannu. Bydd y genau goeg wedyn yn tyfu cynffon newydd mewn byr amser. Camp arall y genau yw dodwy ei wyau pan maent ar fin deor ac felly bydd y cywion yn dod o'r wyau gyda y cânt eu dodwy.


Ymbortha'r neidr fraith yn bennaf ar lyffantod ac at y diben hwn mae hi'n benigamp am nofio. Gwelir hi mewn lle gwlypach na'r lle y gwelir gwiberod. Hi yw'r fwyaf o'n hymylusgiaid a gall dyfu i fod yn bedair troedfedd. Nid yw hon yn wenwynig iawn. Yn wir, mae llawer mwy o bobl yn marw o bigiad cacwn na sydd o frathiad neidr – dwsin o bobl sydd wedi marw o ganlyniad i frathiad gwiber y ganrif hon yng Ngwledydd Prydain.

Mae'n weddol syml gwahaniaethu rhwng neidr fraith

a gwiber. Mae'r cyntaf i'w chael mewn lle gwlypach na'r lle y ceir gwiberod; y mae ganddi liw melyn o gwmpas ei gwddf. Yn ogystal ceir llinellau igam ogam tywyll i lawr cefn y wiber ynghyd â marc V ar ei gwegil.

Osgwn i paham maent yn galw Neidr ddefaid ar genau goeg? Nid oes ganddi goesau o gwbl ond yn wahanol i neidr y mae ganddi dyllau clustiau ac amrannau i gau am ei llygaid. Ei hoff le yw un 'tamp' cynnes sy'n egluro, hwyrach, paham y byddaf yn ei gweld amlaf o gwmpas Pontrug.

Os byddwch yn mynd am dro a'r haul yn gynnes, cerwch yn ddistaw ac edrychwch yn ofalus mewn lleoedd addas a hwyrach y byddwch yn ddigon ffodus i weld un o'n hymylusgiaid. Ond os gwelwch yn dda peidiwch â'u lladd.



GENAU GOEG

TRADDODIAD A CHOEL

gan 'Yr Hen Dderwydd'

Gyda dyfodiad y Pasg, deuai cyfnod newydd a ffres yn nhraddodiadau'r hen Gymry. 'Roedd y paratodau'n dechrau ar Sul y Blodau, gan harddu'r beddau'n y mynwentydd â blodau. Mae'r enw 'Sul y Blodau' i'w ganfod mor bell yn ôl â'r bymthegfed ganrif mewn cywydd gan Lewis Glyn Cothi, ond mae'n debyg i'r arfer o addurno beddau ddatblygu i ddod yn boblogaidd erbyn y ganrif ddiwethaf, ac iddo barhau hyd heddiw.

'Roedd y Pasg hefyd yn arwydd o ddiwedd cyfnod y Grawys; o ddiwedd ymprydio. Dyma hefyd ddatlu'r atgyfodiad – nid yn unig atgyfodiad Crist ond hefyd ail-eni Natur a dyfodiad y gwanwyn. 'Roedd cig ffres ar gael i'w fwyta yn hytrach na chigoedd hallt y gaeaf. Dyma gyfle i wisgo dillad newydd ar ôl lliwiau difrifol y gaeaf a'r Grawys.

'Roedd hyd yn oed y teuluoedd tlotafl yn dathlu'r ŵyl hon gyda chinio o gig oen neu gig myn gafr a wyau. 'Roedd yr ŵyl yn fwyd sumbolaidd iawn yn y cyfnod hwn. Er y cyfnod cyn-Gristnogol bu'n symbol o ail-enedigaeth bywyd – y plisgyn marw yn agor i roi bywyd newydd. Daeth yn symbol tebyg i'r Cristnogion

cynnar hefyd, a byddai'r offeiriad yn bendithio wyau a'u cyflwyno i'r bobl fel anrhegion sanctaidd. Yng nghwrs amser wrth gwrs, daeth yn draddodiad i fynd o amgylch y plwyf i ofyn am wyau'n anrhegion – "Clap, clap gofyn ŵyl; hogia bach ar y plwyf."

Erbyn heddiw, wrth gwrs, wyau siocled yw'r anrhegion er mai Ŵyl Pasg yw'r enw arnynt o hyd.

Adnabyddid y Sul ar ôl y Pasg fel 'Pasg bach' neu 'Pasg bychan'. Mewn rhai ardaloedd 'roedd gwahaniaeth pendant rhwng y 'Pasg bach' a gŵyl (fawr) y Pasg. Ar wir Ŵyl y Pasg (y Pasg mawr) byddai'r teuluoedd cefnog yn mynychu'r eglwys blwyfol i dderbyn y Cymun, ond byddai'r tlodion a'r gweision a'r morynion yn gorfod disgwyl tan y Pasg bach cyn derbyn y Cymun.

DRAENOG



Gobeithio bod y cyn-brifathro o'r ardal wedi talu i Ŵr y Faenol am y ffesant nobl a gyflawnodd hunan-laddiad o flaen ei gar – a hynny ar ddydd Sul o bob diwrnod – ac yng ngiat ffrynt y Faenol hefyd!!

Bistro

45 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: PADARN 278

Pryd gorau'r fro.

SIBRYDION O'R YSGOLION

MEIM A DAWNS – Ar Chwefror 27 yn neuadd yr ysgol cafwyd noson ddiddorol o ddawns yng nghwmni yr artist meim – David Glass. Cafwyd perfformiad gan grŵp dawns y 6ed dosbarth ar y pwnc 'Torri'n Rhydd' a'r grŵp dawns ieuengaf yn dawnsio i stori 'Yr Eneth o Nant Gwrtheyrn'. Bydd y grŵp ieuengaf yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

YMWELIADAU – Prynhawn ddydd Mercher, Mawrth 11, ymwelodd y Doctor Derec Llwyd Morgan â'r 6ed dosbarth Cymraeg i siarad am waith Morgan Llwyd.

Prynhawn Mercher, Mawrth 18 ymwelodd y grŵp electroneg enwog 'Ensemble' â'r ysgol. Grŵp o Goleg Prifysgol Bangor ydynt a dyma'r ail flwyddyn iddynt ymweld â ni.

Yn ystod y mis aeth amryw o blant blwyddyn 2 a 3 i Theatr Gwynedd i weld drama enwog Shakespeare 'Romeo & Juliet'. Trefnwyd yr ymweliad gan Mrs Noreen Manning a Mrs Mary Hughes.

THEATR IEUENCTID YR URDD – Yn ystod gwyliau'r Pasg bydd theatr ieuenctid yr Urdd yn cyfarfod yn Llangrannog i baratoi ar gyfer cynhyrchiad fydd yn teithio drwy Gymru. Aelod o'r tîm technegol fydd Dafydd Hughes, 'Rallt Deg', Cwm-y-glo. Y cynhyrchiad eleni fydd 'Yr Opera Pishyn Tair' – hanes Mac y Gyllell o Soho.

CERDDORFA IEUENCTID GWYNEDD – Cynhaliwyd cyngerdd Cerddorfa Ieuenctid Gwynedd yn Ysgol Dyffryn Nantlle nos Fawrth, Mawrth 18. Cynrychiolwyd yr ysgol gan Iola Llywelyn, Ruth Lennon, Siân Gibson, Rhian Owen, Delyth Parry, Carys Huws, Lyn Jones a Christopher Lloyd.

DISGYBLION DISGLAIR EVIE – Eleni eto y mae disgyblion a chyn-ddisgyblion Mr Evan Roberts, yr Athro Arlunio, wedi dwyn clod i'r ysgol.

Arddangosir gwaith Gwyneth Evans ac Andrew Vaughan Williams yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd, fel rhan o gystadleuaeth Genedlaethol arlunio Gŵyl Ddewi 1981. Cawn hefyd eu harddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Machynlleth.

Yn Oriel Walter, Lerpwl, rhwng Mawrth 28 ac Ebrill 28 arddangosir llun gan Angela Lloyd a Glyn Jones yng Nghystadleuaeth Genedlaethol Arlunio Cadburys.

Mewn arddangosfa arlunio ym Mae Colwyn, y mis diwethaf, cafwyd lluniau o'r ysgol yn gysylltiedig â chymdeithas swolegol Gogledd Cymru gan, Eleri Ellis, Helen Owen, Glyn Jones, Ruth Evans, Jessica

Williams, Rhinallt Parri, Dylan Wyn Jones, Eilir Jones, William Morris, Gwyneth Evans, Judith Kisalu, Delyth Fôn Williams, Loyise Bernard, Lee Pole a Christine Jones.

Yng Nghasgliad Arlunio Rhyngwladol yn Oriel Cenedlaethau Ewing, Prifysgol Talaith Illinois, Yr Unol Daleithau, arddangosir gwaith dau gyn-ddisgybl o'r ysgol, – David John Williams, Llanrug a Maldwyn Peris Roberts, Llanberis. Yno mae 9 mil o enghreifftiau o waith Celfyddyd Plant y Byd, lluniau o 'Llyn Idwal' a'r 'Chwarelwr' a geir o'r ysgol.

Yng nghasgliad Byd-eang yn yr Erevan (Oriel Arlunio), Soviet Armenia, Moscow, mae lluniau gan ddau gyn-ddisgybl o'r ysgol – Meirion Morris, Brynrefail ac Arwel Thomas, Llanrug.

YR URDD – Yn ystod y mis trefnwyd cwis i'r aelodau. Tîm blwyddyn 1, tîm blwyddyn 2 a 3, tîm blwyddyn 4, 5 a 6 a thîm o'r athrawon yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Mr Meirion Wyn Jones oedd y cwestiwnfeistr. Llongyfarchiadau i blwyddyn 1 am fod yn fuddugol.

Llongyfarchiadau i bawb fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod y Cylch. Pob lwc i'r rhai Dan 15 ym Mhwlheli ddydd Sadwrn a'r rhai Dros 15 ym Mhenygroes. Bu tîm o'r Urdd yn cystadlu mewn Gemau Giamocs yn Ysgol Syr Hugh Owen, nos Fawrth, Mawrth 17. Yr oedd tair ysgol yn cystadlu yn y Gemau Giamocs ac yn anffortunos 3ydd oedd yr ysgol, gydag ysgol Penygroes yn fuddugol.

PÊL-DROED – Gartref yn erbyn Llangefni – Dan 13eg: ennill 4-1; Dan 15eg: cyfartal 1-1; Bechgyn Hŷn: colli 4-1; Y flwyddyn 1af: colli 2-1. Penygroes (oddi cartref) – Bechgyn Hŷn: ennill 4-2; Dan 15eg: colli 5-2; Dan 13eg: ennill 16-3; Blwyddyn 1af: colli 2-0. Caernarfon (oddi cartref) – 4edd Flwyddyn: colli 3-2; 3edd Flwyddyn: colli 10-3; 2il Flwyddyn: ennill 2-1; Blwyddyn 1af: ennill 2-1.

CWPAN PÊL-DROED YR URDD – Mae tîm dan 13eg yr ysgol wedi cyrraedd rownd derfynol y gwpan i ysgolion Gwynedd. Bydd y gêm yn cael ei chwarae ar ddydd Iau, Mawrth 23. Y gwrthwynebwyr fydd Ysgol John Bright, Llandudno.

TRAWS GWLAD – Mae Melanie Sellers o Lanberis a Gareth Hughes o Ddeiniolen wedi eu dewis i gynrychioli Ysgolion Gwynedd ym mhencampwriaethau Ysgolion Cymru yn Llanellwedd ar Fawrth 21.

HOCI – Fe enillodd tîm y flwyddyn 1af o 4 gôl i 1 yn erbyn Ysgol Segontium.

PWY? PA BRYD? BLE?



Pwy yw'r dynion yn y llun? Pa bryd ac ymhle y tynnwyd y llun? Cysylltwch â ni. Diolch i Mrs M. Adlam, Penisarwaun am y llun.

APÊL YR URDD

Cychwynnod Urdd Gobaith Cymru ymgyrch genedlaethol i sicrhau cefnogaeth ariannol gan garedigion o bob rhan o Gymru trwy gyfrwng Cyfamod pedair blynedd.

Mewn datganiad ar ran Cyngor yr Urdd dywed Ifan Prys Edwards (cadeirydd), Bob Roberts (trysorydd) a J. Cyril Hughes (cyfarwyddwr).

Mae dyled yr Urdd yn y banc ar draws £200,000 y dyddiau hyn ac felly mae'r sefyllfa'n un argyfyngus iawn. Pryderwn am ddyfodol ein prif fudiad ieuenctid.

Costiodd £634,000 i gynnal yr Urdd y llynedd gan gynnwys bil cyflogau o £214,098. Derbyniwyd £96,000 (15 y cant o'r cyfanswm) yn unig mewn grantiau a chododd y mudiad £537,000 (85 y cant) trwy ei ymdrechion ei hun. Fe gyst yn agos i filiwn o bunnoedd eleni a bydd y bil cyflogau dros £360,000. Bu'n ofynnol gwario £175,000 ar adeiladau newydd – yn Llangrannog a Glan-llyn yn bennaf – yn ystod y ddwy flynedd olaf, a dymunwn bwysleisio mai i'w wario ar ddatblygiadau pellach yn Llangrannog y mae'r grant o £285,000 a gynigiwyd gan y Swyddfa Gymreig: **ni ellir gwario'r un geiniog ohono i gynnal y mudiad o ddydd i ddydd.**

Dethlir 60 mlynedd o wasanaeth amhrisiadwy'r Urdd i Gymru ym 1982. Mae mwy o angen nag erioed am fudiad o ddelfrydau uchel, gweithgareddau cyfoes a sêl dros blant a phobl ifanc Cymru. Yn yr argyfwng economaidd presennol clywn am gwtogi gwasanaethau gan sefydliadau statudol, am gynydd mewn diweithdra a phroblemau cymdeithasol, ac am ddiffyg cyfeiriad i bobl ifanc. Y mae'n rhaid i ninnau fel mudiad gwirfoddol lenwi'r bwlch.

Ym 1982 anrfaethir cychwyn cynllun newydd, cyffrous, Urdd 2000, y cynllun a wnaiff yr Urdd yn fudiad pwysicaf a mwyaf gweithgar gwledydd Prydain, ond ni fedrwn fentro arni cyn yn gyntaf gywiro'r sefyllfa ariannol.

Mae arnom angen cefnogaeth ariannol sylweddol a chyson i'n galluogi i gynorthwyo datblygiad ac i gyfeirio camrau dinasyddion y dyfodol. Mae'n siŵr i chi neu un o'ch teulu agos fwynhau bod yn aelod o'r Urdd rywbryd neu'i

gilydd a chael hwyl ddi-hafal ar y cymdeithasu a'r cyfeillachu. Ymbiliwn arnoch yn awr i sicrhau y caiff ieuenctid heddiw ac ieuenctid yfory yr un hwyl, yr un breintiau. A ydych yn barod i ymuno â ni yn ein hymdrechion diflino i ddiogelu dyfodol yr Urdd? Erfyniwn yn daer am gyfraniad bychan o £2 y mis a gofynnwn i chi arwyddo Ffurflen Gyfamod. Cyhoeddir enwau a swm cyfraniad pawb yn Adroddiad Blyneddol Cwmni'r Urdd.

Mae gweithwyr gwirfoddol a chyflogedig ymroddedig yr Urdd yn ymwybodol o'r cyfle a'r her sydd yn eu hwynebu ac yn awyddus i danio ieuenctid Cymru â'r ddelfryd glodwiw o wasanaeth i Gymru, Cyd-ddyn a Christ. Heb eu hymdrechion hwy a'u tebyg bydd ein cenedl yn dlotach a'n hiaith yn wannach. A fedr yr un ohonom ddychmygu Cymru heb wersylloedd Glan-llyn a Llangrannog, y cyrsiau iaith llwyddiannus, Neges Ewyllys Da Ieuenctid Cymru at Ieuenctid y Byd, Eisteddfodau'r Urdd, yr Adrannau a'r Aelwydydd, a'r cant a mil o ddigwyddiadau eraill cynhyrfus bob blwyddyn? Fel mae pethau heddiw gallai hyn oll ddiflannu. Medr pobl Cymru ein helpu i osgoi'r drychineg trwy gyfrannu £2 y mis yn unig.

Nid diffyg mewn gweinyddiaeth na darbodusrwydd sydd yn gyfrifol am y sefyllfa ariannol. I'r gwrthwyneb, canlyniad brwdfrydedd, egni, a llwyddiant yw ein problem yn awr. Gwelwyd cynnydd yn safon a rhychwant ein gwasanaeth i blant ac ieuenctid Cymru ac ni ellir osgoi gwariant uwch o'r herwydd. Oni lwydda'r ymgyrch hon mae'n anochel y bydd yn ofynnol i'r Cyngor a'i Bwyllgorau edrych o ddifri ar bob agwedd o waith y mudiad; gyda golwg ar gwtogi sylweddol mewn gwahanol gyfeiriadau.

Ond, gellir osgoi hyn trwy i rai miloedd o rieni aelodau a chyn-aelodau a phawb arall sy'n poeni am ddyfodol Cymru gyfrannu cyn lleied a £2 y mis am bedair blynedd. Bydd llun o wirfoddolwyr lleol yn casglu Cyfamodau yn eu gwahanol ardaloedd, neu gellir cael pob manylion o Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth (0970 3744-5)

CÂN I GYMRU

Yr wythnos hon (dydd Sadwrn, Mawrth 28 am 5.05 p.m.) bydd y grŵp BECA yn perfformio y bum cân orau allan o 20 o gyfansoddiadau er mwyn dewis y gân orau i gynrychioli Cymru yn yr Ŵyl Ban-Geltaidd a gynhelir yn Cill Airne yn Iwerddon ar Fai 13.

Cyflwynir y rhaglen arbennig hon, 'Cân Cymru 1981', gan Gwyn Erfyl ac fe'i recordir o flaen cynulleidfada wadd yn Stiwdio HTV, Yr Wyddgrug.


Y beirniaid yw Robin James ac Eirlys Parry.

Cafwyd nifer o ganeuon serch i mewn ar gyfer y gystadleuaeth yn ogystal â chaneuon gwlatgarol, ac yn ôl y cynhyrchydd Eifion Lloyd Jones mae'r safon yn uchel.

Rhoddir gwobr o £100 yr un i awdur y geiriau a chyfansoddwr y gerddoriaeth.

Bydd camerau HTV Cymru yn yr Ŵyl Ban-Geltaidd, a gobeithir teledu rhaglen arbennig o'r Ŵyl, gan gynnwys y gystadleuaeth a fydd yn cael ei darlledu ar HTV Cymru ar Fai 23.

Cedric



ENW NEWYDD AR HEN WASG

Bydd Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd yn dathlu ei deg a phedwar ugain mlwydd oed ar 1 Medi 1981 a gall ymfrostio ei bod wedi bod o wasanaeth amhrisiadwy nid yn unig i'r Cyfundeb ond hefyd i'r genedl. Gwelodd gyfnewidiadau yn y gorffennol ond prin y gwelodd gyfnewidiad mor chwyldroadol â'r un sy'n digwydd eleni. Newidiodd y wasg ei henw. Bellach fe'i hadwaenir fel Gwasg Pantycelyn – teyrnged i brif lenor y Methodistiaid Calfinaidd.

Newidiwyd hefyd y dull o'i gweinyddu. Penodwyd Bwrdd i reoli'r wasg. Cadeirydd y Bwrdd yw'r Athro Brynley Roberts, Coleg y Brifysgol, Abertawe. Ond y swyddog sy'n gyfrifol am weithgareddau'r wasg o ddydd i ddydd yw'r Cyfarwyddwr, Mr W.J. Humphreys, gŵr ifanc a gafodd brofiad helaeth fel argraffydd gyda chwmni Tinlings yn Prescott a argraffai lyfrau i brif gyhoeddwr Lloegr yn ogystal â chyda Gwasg y Brython a Gwasg Gee.

Mae Mr Humphreys a'r Bwrdd yn awyddus i weld Gwasg Pantycelyn yn cyhoeddi llyfrau o ddiddordeb cyffredinol yn ogystal ag o ddiddordeb crefyddol. Un o'r datblygiadau mwyaf cyffrous yw'r cynlluniau i baratoi cyfres newydd o lyfrau am y teitl cyffredinol *Llen y Llenor*, cyfres gyffelyb i'r gyfres Saesneg *Writers of Wales* ac a olygir gan yr Athro J.E. Caerwyn Williams. Bydd pob cyfrol yn cynnwys llenor o Gymro fel testun ac yn trin ei waith o safbwynt llenyddol yn hytrach na safbwynt cofiannol ac yn gyson â hyn bydd y pwyslais ar helpu'r darlennydd i ddeall a gwerthfawrogi gwaith y llenor yn anad dim arall.

Nid oes neb a wad nad oes angen y fath gyfres, yn enwedig gan fod rhai o'r ymdriniaethau diweddaraf a gorau ar rai o'n prif lenorion wedi ymddangos yn yr iaith Saesneg.

Dwy o'r cyfrolau cyntaf i ymddangos yn y gyfres fydd *R. Williams Parry* gan y Dr John Gwilym Jones, a *Williams Pantycelyn* gan y Dr Derec Llwyd Morgan.

Am fanylion pellach cysyllter â Rheolwr y Wasg, Mr W.J. Humphreys (ffôn Caernarfon 2018).

AR WERTH

(1) Beic 'Racer' 3 gêr; (2) Beic hogyn 8-9 oed. Ffôn Felinheli 670861.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP TELEDU

T
CEPAS

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
(Ffôn: Llanberis 205
gyda'r nos)

PAIS YM MRO'R ECO

O ardal 'Eco'r Wyddfa' y daw'r rhan fwyaf o dudalennau ffasiwn 'Pais', y papur Cymraeg i ferched y mis hwn. Bu 'Pais' yn ymweld â chwmni gweu 'Mab' o Benisarwaun sy'n cyflogi rhwng dwy i chwech o ferched lleol i weu o'u cartrefi ar wahanol adegau, ac fe dynnwyd lluniau o nifer o'u gwisgoedd yng Ngwesty Victoria, Llanberis gan John Gwyn Williams gyda'i gariad, Rhian a Susan Ellis, un o bartneriaid cwmni 'Mab' yn modelu.

Bu 'Pais' hefyd draw yn cael sgwrs â Maureen Rhys am ddillad a ffasiwn ac yn cael lluniau ohoni hi yn ei hoff wisgoedd. Dyma i chi un ohonyn nhw: ffrog drawiadol mewn hufen a brown golau gan Bill Gibb. "Ffrog hollol ddi-werth, mae'n debyg, ond dyma'r unig beth sydd gen i na fedra' i ond ei gwisgo rhyw deirgwaith mewn oes," meddai Maureen!

Fe fydd 'Pais' ar werth yn eich siop bapur newydd lleol a'r siopau Cymraeg o ddechrau'r mis ymlaen; gwnewch yn siŵr o'ch copi!



Maureen Rhys — yr actores sydd yn enedigol o Gwm-y-glo.

Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?**

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

**Welsh
Development Agency**

DYFFRYN SEIONT AR DDYDD CY

(gan Eric Jones, Y Bala (Penrhos Byngalov

FEL y gŵyr pawb bellach fe wneir cyfrifiad llawn o boblogaeth gwledydd Prydain ar nos Sul cyntaf y mis hwn. Gwnaed rhifiadau cyffelyb bob deng mlynedd er 1801, gydag eithriad blwyddyn dywyll 1941. Yn dilyn pob cyfrifiad cyhoeddwyd cyfrolau o ystadegau yn dangos nodweddion y boblogaeth ar lefelau yn amrywio o'r cenedlaethol i'r lleol.

Dyma ddetholiad o rai o'r ystadegau a gasglwyd ym mhlwyfi Llanberis, Llanrug a Llanddeiniolen ar ddiwrnod cyfrifiad 1971.

1. Rhif a Rhywogaeth y Trigolion

Dengys y tabl:

- (a) nifer y rhai a gofnodwyd yn bresennol noson y cyfrifiad gan gynnwys ymwelwyr
(b) y boblogaeth sefydlog
(c) ac (ch) nifer y gŵyr a'r merched yn y boblogaeth sefydlog.

	a	b	c	ch
Llanberis	2049	918	913	1005
Llanddeiniolen	3886	3866	1849	2017
Llanrug	2191	2152	1038	1114

Dyffryn Seiont 8126 7936 3800 4136
Llanddeiniolen fu'r plwy' mwyaf ei boblogaeth o leiaf o 1801. Yn y flwyddyn honno yr oedd y nifer yn 1039 i gymharu â 404 yn Llanberis, a 316 yn Llanrug. O dan ddylanwad y cynnydd eithriadol yn y diwydiant llechi tyfodd i 6886 erbyn 1881. Yr un flwyddyn yr oedd poblogaeth Dyffryn Seiont yn 12,994. O 1881 hyd 1961 lleihau yn gyson fu hanes poblogaeth y tri phlwyf, ond rhwng 1961 ac 1971 cafwyd cynnydd o 5 y cant ym mhoblogaeth Llanrug a 2 y cant ym mhoblogaeth Llanddeiniolen. Ar y llaw arall parha i ddisgyn wnaeth poblogaeth Llanberis (lleihad o 3 y cant).

2. Oedran y Boblogaeth

Rhydd y tabl hwn gyfartaledd y boblogaeth yn y pedwar grŵp oedran ym mhob un o'r tri phlwyf. Y grwpiau yw:

- (a) babanod a phlant (0-14 oed)
(b) y bobl ifanc (15-44 oed)
(c) y canol oed (45-64 oed)
(d) yr henoed (65 a throsodd)

	a	b	c	ch
	%	%	%	%
Llanberis	24	35	27	14
Llanddeiniolen	23	38	23	16
Llanrug	21	36	26	17

Ar waethaf hannes canrif o ddirywiad economaidd llym y mae poblogaeth Dyffryn Seiont yn cymharu yn weddol ffafriol â'r patrwm cenedlaethol. Dyma'r ffigurau am Gymru gyfan

a	b	c	ch
%	%	%	%
24	37	25	14

3. Man geni'r Boblogaeth

1 Rhydd y Cyfrifiad wybodaeth yn unig o'r gwledydd lle y ganwyd y trigolion. Dengys y tabl fod mwyafrif mawr o'r boblogaeth wedi eu geni yng Nghymru, ond bod y gyfran a anwyd yn Lloegr bellach yn sylweddol.

	Cymru	Lloegr	Gwledydd eraill
	%	%	%
Llanberis	88	9	3
Llanddeiniolen	85	13	2
Llanrug	83	15	2

4. Nifer y Tai a'r Teuluoedd

(a) Tai
a phobol yn byw ynddynt

(b) gweigion

(c) Teuluoedd
yn bresennol

(ch) yn absennol

	(a)	(b)	(c)	(ch)
Llanberis	715	125	688	26
Llanddeiniolen	1428	214	1378	52
Llanrug	796	203	89	6

Dyffryn Seiont 2939 542 2855 84

Y mae'r tai gweigion yn cynnwys nid yn unig dai gweigion ond hefyd fyrddynnod etc.

5. Patrwm Perchnogaeth Tai

(a) yn eiddo'r
preswylwyr

(b) tai
cyngor

(c) tai/fflatiau
wedi'u rhentu'n breifat

	(a)	(b)	(c)
	%	%	%
Llanberis	49	32	19
Llanddeiniolen	62	28	10
Llanrug	69	16	15

POBLOGAETH PLWYFI

	1801	1811	1821	1831	1841	1851	1861
Llanberis	404	438	472	725	1024	1111	1364
Llanddeiniolen	1039	1253	1727	2610	4202	4804	5747
Llanrug	316	682	788	1204	1760	1894	2139

Wrth droed yr Wyddfa . . .



**BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS** Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Bwyty
Trwyddedig

A la Carte

Bwyd Basgedi

Bwyd Môr Ffres

Wedi eu paratoi gan ein Chef profiadol iawn

Partion

Ciniawau

Gwleddoedd


Priodasau

Lle i 110 ar y tro
Ffoniwch i fod yn saff o le

**GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



CYFRIFIAD 1971 (Llanrug gynt)

6. Cyfleusterau mewn Tai

(a) Heb ddŵr
poeth

(b) Heb
Faddon

(c) Heb doiled
yn y tŷ

	(a) %	(b) %	(c) %
Llanberis	19	30	28
Llanddeiniolen	19	26	23
Llanrug	18	24	22

Y mae'r tabl hwn yn adlewyrchu cyflwr hen llawer o'r tai ac hefyd dlodi cymharol Dyffryn Seiont. Yr oedd y sefyllfa waethaf ym mhlwyf Llanberis lle yr oedd ond 64 y cant o'r tai anedd gyda'r tri chyflwystr uchod i gymharu â 69 y cant yn Llanddeiniolen a 73 y cant yn Llanrug.

7. Perchnogaeth Ceir

Cadarnha'r tabl hwn fod teuluoedd Llanrug yn tueddu i fod yn fwy cefnog na rhai'r ddau blwyf arall. Nid yn unig yr oedd mwy o deuluoedd gyda char ond hefyd fwy gyda dau neu ragor o geir.

(a) Heb Gar

(b) Hefo 1 car

(c) Hefo 2 neu fwy

	(a) %	(b) %	(c) %
Llanberis	52	42	6
Llanddeiniolen	44	46	10
Llanrug	39	48	13

8. Nifer mewn Gwaith etc.

(a) Mewn Gwaith

(b) Yn chwilio am waith

(c) Yn sâl

(ch) Wedi Ymddeol

	(a)	(b)	(c)	(ch)
Llanberis	694	56	19	204
Llanddeiniolen	1266	132	55	492
Llanrug	803	77	28	333

Y mae'r ffigurau hyn yn awgrymu fod yna ddiweithdra o rhwng 8 a 10 y cant adeg Cyfrifiad 1971.

Bu'r degawd 1971-81 yn un cymysg. Cafwyd cyfnod hynod o lewyrchus gyda dyfodiad Cynllun Dinorwig a chododd safonau byw yr ardal gryn dipyn. Erbyn hyn fodd bynnag, mae cymylau duon dirwasgiad eto'n bygwth yr ardal. Bydd Cyfrifiad 1981 yn sicrhod dangos effeithiau'r newid hwn, a chawn gyfle i astudio'r ffigurau ymhen tair neu bedair blynedd.

Ffynhonnell yr Ystadegau:
mall Area Statistics: Cyfrifiad 1971.

FFRYN SEIONT 1801-71

	1881	1891	1901	1911	1921	1931	1951	1961	1971
371	3033	2818	3015	2912	2373	2370	2333	2110	2049
507	6886	6164	6143	5848	4832	4779	4580	3812	3886
574	3075	2758	2911	2793	2504	2617	2472	2092	2191

Ffynhonnell: Ystadegau'r Cyfrifiad 1801-1971.

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Agor

Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Afa chwi heddiw ar daith i weled gwlad Beddgelert. Mis Tachwedd 1959 y bŵm ar y daith hon, y mae felly dros ugain mlynedd. Cedwais yr hanes yn ofalus. Mae'r hen air ddigon gwir, "Cadw-mi-gei"!

Yr oeddwn yn 'bwrw'r Sul' yn Nhŷ Capel Namor, Beddgelert a chefais groeso cynnes a phob caredigrwydd gan Mr a Mrs Griffith a'r teulu a Miss Davies, Y Llythyrdy, ac eraill o'r ardal.

Cafwyd gwasanaethau'r Saboth yn yr ysgol ddyddiol gan fod y Capel (MC) yn cael ei atgyweirio a'i beintio. Profiad newydd i mi oedd cael pregethu mewn ysgol.

Yn eistedd ar un o feinciau'r ysgol yn gwrando arnaf bore Sul yr oedd un a fagwyd yn yr ardal ac erbyn hynny yn fargyfreithiwr yn Llundain.

Wrth gwrs, wyddwn i ddim bod bargyfreithiwr yno. Ar y diwedd, daeth i ysgwyd llaw gyda mi a diolch am y bregeth. Chwarae teg iddo.

Y profiad arall a gefais oedd cael mynd i'r Carneddi, sef hen gartref Carneddog a'i wraig. Mr Griffith, y Tŷ Capel aeth a fi i'r Carneddi a dyma fraslun o'r sgwrs i ddisgrifio'r golygfeydd oddi amgylch.

Y MOELYDD

Cyn cychwyn i fyny ffordd Namor (y ffordd a elwir Ten Mile Walk am ei bod yn mynd a mynd am ddeng milltir rownd godre'r mynyddoedd a dod allan yn ymyl Capel Nant Gwynant) safasom i edrych ar y brynau o'n hamgylch. Meddai Mr Griffith:

"Dacw'r Foel Ddu ar y chwith, Bryn Bannog yn y canol a'r Foel Hebog ar y dde, welwch chwi'r ffermdy acw draw ar ochr uchel Bryn Bannog? Dacw chwi Oerddwr, cartref yr Hughesiaid. Un ohonynt oedd William Hughes - Wil Oerddwr fel y'i gelwid - y dyn fyddai'n gwneud cerddi. Yr oedd mam William Hughes yn chwaer i'r Parch R.R. Morris, Betws Garmon, yntau yn fardd campus."

Gofynnais sut yr oeddynt yn medru mynd i le mor uchel ar y mynydd. "Mae ffordd yn mynd heibio Plas Oerddwr yn y fan acw, neu gellir mynd i fyny'r llwybr trwy'r coed."

Y CNICHT

Ymlaen â ni rŵan, a phasio ffrwd fechan yn prysuro dros gerrig ac yn fawr ei stŵr - un o'r pethau anwylaf mewn bod i mi ydyw nant y mynydd. Bron iawn na fedrwn ei chlywed yn sisial fel y clywodd Ceiriog hi.

Dyma'r Wenllys. Yr hen enw arno oedd Pompran Owen. Wrth gwrs, mae'r hen dŷ Bompran Owen wedi ei chwalu a thŷ newydd wedi ei adeiladu.

"Welwch chwi'r Cnicht yn dod i'r golwg?"

"Ardderchog", meddwn. Sefyll eto i edrych ar y chwith, a Mr Griffith yn disgrifio'r paratodau a wnaed gyda'r ffilm fawr, sef, "The Inn of the Sixth

Happiness" - hen fur mawr China yn croesi Bryniau Sglodion!

"Dacw'r Arran yn dŵad i'r golwg rŵan. Mae niwl yn cuddio'r Wyddfa. Yn y fan yma ar y dde yr oedd bwthyn lle magwyd Richard a John Athan Davies, marchnatwyr llechi ym Mhorthmadog. Draw yn y pant yn y fan acw y mae cofgolofn wedi ei chodi lle lladdwyd bachgen un ar ddeg oed gan fellten. Y mae englyn gan Eben Fardd ar y gofgolofn. Brawd Richard a John Athen oedd y bachgen."

YR HEN WALIAU CERRIG

Dyma ni wedi dwad at lidiart ar y chwith, ac yr ydym yn troi o ffordd Namor i fynd trwy'r lidiart. "Gellwch fynd i dŷ Bob Owen, Croesor, ond canlyn ymlaen ar y ffordd."

Teimlad rhyfedd oedd cerdded i fyny'r ffordd tua hen gartref Carneddog y clywais gymaint sôn amdano. Bron na allwn ddychmygu gweld ôl ei draed yma ac acw.

Ymlaen â ni, i fyny yn uwch ac yn uwch o hyd, a rhyfeddu at yr hen waliau cerrig a godwyd gan y tadau gynt. Mae cadernid y waliau cerrig yn dystiolaeth i'w diwydrwydd a'u gallu. Meddylwch am y gwaith o gasglu'r cerrig a'u gosod ar ei gilydd ar hyd y mynyddoedd serth a hynny am rhyw geiniog yr awr.

CAPEL ANWES

Dyma ni yn pasio Beudy Newydd, ac yn edrych ar y drws i'r garej wrth ochr y tŷ. "Dacw chwi'r drws oedd yn fynedfa i dref China oedd yn y ffilm."

Dotio wedyn at yr hen, hen fwthyn unicorn, sef yr hen Feudy Newydd. Mae ei furiau yn dal yn gadarn.

"Dacw chwi olion hen gapel Anwes yr oes o'r blaen. Gelwir un o'i ddrysau yn Ddrws Gwŷr Ardudwy. Beudy a thŷ gwair ydyw'r hen gapel heddiw. Mae'n debyg fod llawer o fythynnod yn ymyl y capel bach erstalwm, ond erbyn hyn mae'r bythynnod wedi diflannu."

DRWS CARTREF CARNEDDOG

Dyma ni o'r diwedd wedi cyrraedd hen gartref Carneddog. Ac O! olygfa! Panorama mewn gwirionedd!

Rhaid oedd sefyll wedi'n syfrdanu at fawredd y greadigaeth. Yr oedd rhyw sancteiddrwydd yn yr awyrgylch.

Yr oeddwn yn diolch o waelod fy nghalon mai prynhawn Sul oedd hi. Yr oedd hyfrydwch a thawelwch Gŵyl y Saboth i'w deimlo yn yr awyrgylch hafaidd a Chysegredig. 'Does ryfedd yn y byd i Carneddog a'i wraig hoffi'r lle a theimlo fel Dewi Mawrth:

Hen le mwyn yw ael mynydd -
iach binael

Lle chwibana'r hedydd;
Llys tawel yr awel rydd
Lle i enaid gael llonydd.

PENISARWAUN

EGLWYS SANTES HELEN – Cafwyd cyfarfod blynyddol Undeb y Mamau nos Lun, Mawrth 2. Cymerodd Mrs B. Mowll, yr aelod cofrestru, y gwasanaeth. Cafwyd darlenniad o'n cyfrifon ariannol gan y trysorydd, Mrs O.L. Roberts, a'r agenda gan Mrs Mary Davies, yr ysgrifennydd. Ail etholwyd y swyddogion am dymor arall o wasanaeth. Rhoddwyd y te gan Mrs B. Mowll a Mrs M. Davies. Diolchwyd iddynt gan Mrs O. Thomas. Dymunwn yn dda i Mrs Megan Jones, Perthi sydd yn yr ysbyty. Brysiwch wella.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Bu cyfarfod o'r Sefydliad yn yr ysgol nos Fawrth, Chwefror 24. Croesawodd y llywydd, Mrs M. Williams, y wraig wadd, Mrs Katie Jones, Waunfawr. Cafwyd noson ddifyr iawn. Adroddodd ychydig o'i hanes yng Nghnada, a dangosodd sleidiau. 'Roedd lola ei merch gyda hi yn helpu. Diolchodd Mrs E. Jones, Cae Corniog, i'r ddwy. Rhoddwyd y tegau Mrs Glenys Williams a Mrs M. Davies ac enillwyd y raffl gan Mrs K. Williams.

GWELLHAD BUAN – Dymunwn wellhad buan i Mr Nathan Jones, 5 Tai Brynhyfryd, sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN – Mae Mr Aled Green, Rhos Wian wedi'i ddewis i weithredu fel un o'n cynrychiolwyr ar y cyngor uchod. Bydd Mr Green yn cymryd lle Mr Bryngwyn Griffith, sydd wedi symud i fyw i Gonwy. Llongyfarchiadau i Mr Green.

DIOLCH – Dymuna Cai Larzen, Llygad yr Haul, ddiolch yn fawr i'w berthnasau, cymdogion a chyfeillion am yr anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 21 oed.

LLONGYFARCHWN – Cai Larzen, Llygaid yr Haul, ar gyrraedd ei un ar hugain oed. Hefyd, Janice Williams, 23 Bryntirion. Mae hi wedi dod i'r dosbarth cyntaf ar ôl cwrs dwy flynedd yng ngholeg Technegol Bangor ar Reolaeth Cartref a Theulu, ac mae wedi cael gwobr fel yr efrydydd gorau ar y cwrs hwn. Bydd yn cael y wobwr nos Wener, Mawrth 27.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr a Mrs Trevor Rowlands ar enedigaeth mab bach, – brawd i Daniel.

CYDYMDEIMLWN – Â Mrs P. Williams, 3 Llys-y-Gwynt sydd wedi colli ei chwaer yn Rhosgadfan.

CLWB YR HEULWEN – Cafwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn o'r Clwb, ddydd Mawrth, Mawrth 17. Ail etholwyd y swyddogion. Rhoddwyd y te gan amryw o'r chwiorydd. Enillwyd y raffl gan Mrs Rose Jones a diolchodd Miss Laura Jones, Craig-y-Dinas i bawb. Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 21, ac fe ofynnir i bawb am ei dâl aelodaeth, (20c) ar y dyddiad hwn. Os oes aelodau newydd eisiau ymaelodi bydd croeso iddynt.

CHWIORYDD – Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel Bosra (A), nos Wener, Mawrth 6 i gyd-weddio â merched y byd ar Ddydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd.

Arweinydd y gwasanaeth oedd Mrs Mary Davies, a rhoddwyd yr anerchiad gan Mrs Pat Larzen. Ymunodd amryw o chwiorydd yr ardal yn y cyfarfod, yn eu plith, Mrs Nansi Jones, Meillionydd, Mrs Beti Hughes, Mrs Ann Evans, Mrs Eluned Jones, Cae Corniog, Mrs Eirlys Jones, Mrs Jennie Williams, Cae Corniog, Mrs Porter, Mrs K. Williams, Mrs Jennie Jones, Bryntirion a Mrs

Green.

Daeth nifer o chwiorydd ynghyd i ddatlu'r achlysur arbennig hwn.

YSGOL TAN Y COED – Yn ddiweddar bu wyth o blant Safon 4 yn treulio wythnos ar Gwrs Cymraeg yng Ngholeg Glynllifon. Hyderir iddynt gael budd o'r cymdeithasu a'r dysgu.

Ddechrau'r mis cynhaliwyd Cyngerdd Gŵyl Ddewi pryd y cafwyd eitemau o ganu, adrodd a chaneuon actol. Daeth tyrfa dda o rieni ynghyd, a gobeithir iddynt gael gwledd i'r llygad yn ogystal â'r glust.

Bu tua dwsin o'r plant yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail. Dylid llongyfarch yn arbennig y Parti Cyd-adrodd a gafodd y 3edd wobwr. Fe'i hyfforddwyd gan Mrs Ann Evans.

SALWCH – Drwg gennym ddeall am salwch Mr G. Parrot, Bryn Eglwys. Gobeithio ei fod wedi gwella erbyn hyn.

CYDYMDEIMLIR – â Mrs Nesta Jones, 2 Llys y Gwynt ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith, Nyrs Grace Jones, yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

FFAIR WANWYN YR YSGOL FEITHRIN GYMRAEG – Roedd y Ffair Wanwyn er budd yr Ysgol Feithrin, a gynhaliwyd yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Mawrth 20, yn llwyddiant ysgubol. Agorwyd y Ffair gan y Cynghorydd Pat Larsen. Enillwyd y raffl oedd: Mrs Elizabeth Jones, 17 Bryntirion (Bugs Bunny); Mrs W. Jones, 13 Bryntirion (nwyddau groser); Mrs Ellen Lewis, Penpwlloch (casau gobennydd); Arwel Williams, Carrog (2 wydryn); Ynyr Gruffydd, Arwel (teisen).

Ceirion Williams, Bryntirion a ddyfalodd faint o 'Smarties' oedd yn y botel.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i'r canlynol am eu rhoddion hael: Pwyllgor Maes Chwarae Penisarwaun; Mrs Williams, Meillionydd; Mrs Mathreus, Freshwinds; Mrs Williams, 12 Bryntirion; Miss F. Williams, Isgaer; Mrs G. Lewis, 6 Llys y Gwynt; Mrs P. Larsen, Llygad yr Haul; Mrs M. Williams, Tanygaer. Diolch hefyd i Mr a Mrs Owen, Siop Gron; Y Co-op Llanrug a Mr E. Jones, Becws, Deiniolen am eu rhoddion tuag at y raffl, ac i bawb arall a wnaeth nwyddau i'w gwerthu, neu ar gyfer y raffl.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn hefyd i'r Cynghorydd Mrs Pat Larsen am agor y Ffair, ac i swyddogion yr Eglwys am ganiatâd i ddefnyddio'r Neuadd.

Diolch i ymdrechion a chefnogaeth pawb, mae elw'r noson ynghyd â'r rhoddion wedi sicrhau £139 i goffrau'r Ysgol Feithrin.

YR EISTEDDFOD – Cynhelir yr Eisteddfod yng Nghapel Glasgoed, nos Wener, Mai 8, yn dechrau am 5.30 p.m. Mae llwyddiant yr Eisteddfod yn dibynnu'n llwyr ar ein hymdrechion ninnau fel pentrefwyr, felly beth am frwr iddi yn ddiymdroi i hyfforddi partion, unigolion ac yn y blaen. Mae'r rhestr testunau yn awr ar werth, felly mynnwch gopi.

YNG NGHYLCHGRAWN 'PAIS' – Faint ohonoch chi, ferched y pentref, sydd yn darllen 'Pais', y cylchgrawn i ferched Cymru? Pob un ohonoch, gobeithio! Yn rhifyn mis Mawrth o'r cylchgrawn mae erthygl ar Randolph a Susan Ellis, Glan Arthur, a nifer o luniau yn dangos y dillad a gynhyrchir ganddynt. Gwelir Susan Ellis, a'i merch Môriggan yn gwisgo rhai o'r dillad. Pob hwyl iddynt yn y dyfodol.

Y CYMRO – Peth braf hefyd yw gweld enwau rhai o blant y pentref yn gyson

ar dudalen plant 'Y Cymro'. Mae enwau rhai fel Eurgain Haf Evans a Dylan Pierce Williams i'w gweld yn aml. Da iawn yn wir!

DIGWYDDIADAU OD – Mae'r tywydd wedi effeithio mewn ffordd od iawn ar bobl Bryn Eglwys yn ddiweddar. Dyna gar Dafydd Evans yn ceisio troi'n gwch y noson o'r blaen a darnau ffens Tony Elliott yn penderfynu newid i fod yn adar a hedfan o gwmpas y pentref!

EISTEDDFOD PENISARWAUN

Capel Glasgoed, Penisarwaun, nos Wener, Mai 8 yn dechrau am 5.30 p.m. Mae'r testunau hyd at 12 oed yn gyfyngedig i blant dalgylch Ysgol Gynradd Tan-y-coed, Penisarwaun. Mae'r testunau dros 12 oed hyd at 18 oed yn agored i'r byd, felly, dewch i gystadlu. Cyhoeddir rhai o'r testunau rhwng 12 oed a 18 oed isod, ond os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Mrs Ann Jones, Ty'n y gerddi, Penisarwaun. (Ffôn Penyllyn 403.)

CERDD

12-15 oed: Hunan ddewisiad. Gwobr £1.50; £1. 15-18 oed: Hunan ddewisiad. Gwobr £3; £2. Parti dan 18 oed: Grŵp Modern. Gwobr £2. Deuawd dan 15 oed: Hunan ddewisiad. Gwobr £2. Deuawd 15-18: Hunan ddewisiad. Gwobr £3.

ADRODD

12-15 oed: 'Beic Newydd', Gwyn Williams (Gwreichion). Gwobr £1.50; £1. 15-18 oed: 'Mewn Arholiad', Gwyn Williams (Gwreichion). Gwobr £3; £2. Parti Adrodd. Oed Uwchradd: Unrhyw ddwy soned o waith Syr T.H. Parry-Williams. Gwobr £2; £1.50.

BARDDONIAETH

12-15 oed: 'Y Disgo'. Gwobr £1.50; £1. 15-18 oed: 'Ynni'. Gwobr £3; £2.

RHYDDIAITH

12-15 oed: 'Gwersylla'. Gwobr £1.50; £1. 15-18 oed: 'Llyfr Lloffion' ar Eryri. Gwobr £3-£2.

Rhoddir Tlws yr Eisteddfod am y cynnyrch gorau o blith y Cystadleuthau Barddoniaeth a Rhyddiaith ym marn y Beirniad Llên.

COGINIO

Dan 13 oed: 'Victoria Sponge'. Gwobr £1.50; £1. 13-18 oed: 'Fflan Ffrwythau'. Gwobr £3; £2.

ARLUNIO

12-15 oed: 'Unrhyw Aderyn'. Gwobr £1.50; £1. 15-18 oed: Hunan ddewisiad. Gwobr £3; £2.

GWAITH LLAW

12-15 oed: 'Collage'. Gwobr £1.50; £1. 15-18 oed: 'Tegan Meddal neu Bren'. Gwobr £3; £2.

RHYFEDDODAU BRYNREFAIL

O'R GWELY DŴR I'R GWELY PLU

Fe gofiwch am y gwely dŵr, A giamocs Pat a Ken. Y pynciar byth-gofiadwy A ddaeth â'r hwyl i ben!

Wedi'r drochfa yn y llofft, A'r fatres ddŵr gael llŷch, Aeth Pat i brynu 'Slumberland', Er mwyn cael cysgu'n sych!

Y dŵr aeth i'r pwll hwyaid, Ac yno bu am sbel; A Ken yn prynu cywion, – Wel dyna bethau del.

Ai cywion benyw oeddynt? 'Doedd Pat na Ken 'rhy siŵr. Bu'r ddau yn gwylio am oriau Fin nos wrth lan y dŵr.

Tair hwyaden, ond dau ŵy, – Dwy iâr a cheiliog oeddynt. Yn awr mae tri, fe ddaw 'na lu, – O'r gwely dŵr i'r gwely plu!

WIL CWAC CWAC

TEITHIO O DAN Y DDAEAR


Mae'n debyg mai'r twnel cyntaf yn y byd oedd yr un a adeiladwyd gan y Babiloniaid tua'r flwyddyn 2160 C.C. 'Roedd yn cysylltu palas y brenin â theml ar ochr arall yr afon Euphrates. Ond pethau prin iawn oedd twneli yn y gorffennol oherwydd mai ar droed neu ar gefn ceffyl yr oedd pawb yn teithio.

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dechreuwyd adeiladu rheilffyrdd a chamlesi, ac yn naturiol, 'roedd angen tir gwastad. 'Roedd yn rheidrwdd iddynt felly adeiladu twneli i gario'r rheilffyrdd a'r camlesi o dan fryniau a mynyddoedd.

Oherwydd bod dinasoedd mawr y byd yn cael eu tagu gan drafnidiaeth, daw'r rheilffyrdd tan-ddae'r yn fwy a mwy pwysig. Hebddynt ni allai strydoedd dinasoedd anferth y byd ddygymod â'r holl drafnidiaeth. Gall dinasoedd y dyfodol fod yn rhydd o drafnidiaeth ar yr wyneb, gan ddefnyddio sustem rheilffyrdd tan-ddae'r yn unig.

Mae sôn wedi bod ers blynyddoedd am adeiladu twneli gysylltu Prydain a Ffrainc. Efallai rhyw ddiwrnod y gwreiddir y breuddwyd hwn. Ond mae twnel tebyg wedi ei adeiladu'n barod yn Japan – Twnel Seikan, sy'n cysylltu ynysoedd Honshu a Hokkaido yng ngogledd y wlad. Dyma'r twnel mwyaf o'i fath yn y byd. Mae'n 22 milltir o hyd.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

HANES 'BRYN EGLWYS' LLANBERIS

gan Mrs D. Baylis

Mewn llyfryn am Gapel Jerusalem, 1881-1887 - fe ddywed y Parch. J. Evans Owen ac Ishmael Davies fod yna "grefydd-dai" yng nghwr isaf Llanberis o'r enw Bryn-yr-Eglwys a Bryn-y-Gwyddfán - rhywle tua'r 12fed ganrif. Ac i'r ddau fan hyn yr arferai gwylwyr Llewelyn a helwyr Brenhinoedd Lloegr fynd i gyffesu a derbyn maddeuant am eu drwg fuchedd. Rhyfedd yw meddwl fod yma Eglwys Rufain yn Llanberis yr holl flynyddoedd yn ôl tra y meddyliwn ni mai yn awr ym 1981, pan agorir yr hen gapel bach Wesle - Bethel - ar gwr Charlotte Street y bydd ein Heglwys Gatholig-Rufeinig gynta yn yr ardal.

Fe wyddom oll fod "Bryn Eglwys" rhwng Halford Hill a Phen-y-Bont, ac adeilad newydd yw Bryn Gwyddfán - dros y ffordd wedi ei adeiladu ar yr hen sylfaen. (Wrth edrych yn fanwl gwelwn wahaniaeth yn y cerrig a ddefnyddiwyd i adeiladu'r tŷ newydd.)

Mae "Bryn Eglwys" yn peri gwefr i bawb wnaiff aros a sylu arno, mae'n hudol ac ofnadwy! Cred llawer heddiw fod eglwys wedi bod mewn grym yma rhyw dro. Welsoch chi'r goeden fytholwyrdd yna (y llarwydden, - larch) sydd wrth y fynedfa at y berllan? Cewch berllan a choed fel yna wrth bob eglwys ac mae yna ffynnon heb sychu byth o flaen yr adeilad - (mae yna un ym Mryn Gwyddfán hefyd). Gan fod llawer o hwylio cychod ar Lyn Padarn flynyddoedd lawer yn ôl gallai dynion ddod o Gastell Dolbadarn neu o Nant Peris mewn ychydig funudau i'w gwasanaethau ym Mryn Eglwys - bu cychod yn aros ar y lan yna am ganrifoedd a phwy sy'n cofio Pont-pen-bont yn y fan a'r lle?

Darganfuwyd bedyddfaen yn yr ardd o flaen 'Bryn Eglwys' - ond nid oes dyddiad ar gael ac ond ychydig o neb yn gwybod dim amdani, ond gellir ei gweld heddiw yn Eglwys St. Padarn - mae'n cael ei defnyddio ym mhob bedydd plentyn, ac wedi ei gweithio i mewn yn gywain i 'stand' o gerrig mor debyg ag oedd modd.

Galwyd y tŷ yma yn 'T'wyn Eglwys' ar un cyfnod. Cred rhai mai eglwys Geltaidd oedd yma cyn i'r Rhufeiniaid ei chymryd trosodd. Ond yn sicr bu Sant Padarn, Paternus, yn efengylu o gwmpas

Llanberis, o Lanbadarn Fawr, flynyddoedd yn ôl a buasai angen lle i aros am egwyl!

Dywed y Parch Eric Owen Pentrecastell fod ei deulu ef yn byw ym Mryn Eglwys er 1820 - yno y ganwyd ei dad ym 1872. Yno y ganwyd Mr Charles Oscar Owen (arweinydd Côr Llanberis) hefyd. Bu teulu Mr John Morgan Nant Peris yn byw yno yn ystod rhyfel 1914-18. Mae rhai yn cofio teulu'r Inghams yn byw yno.

Mae'n debyg fod llawer yn yr ardal heddiw yn cofio rhyw gysylltiad â'r lle.

Hawdd iawn yw credu fod Rhufeiniaid wedi trigo yma ar eu teithiau drwy Gymru - onid oes yna 'Patellau Rhufeinig' yn Eglwys St. Padarn wedi eu darganfod yn Mur Mawr? (1956)

Os yw archaeolegwyr modern wedi cloddio i mewn i lefydd yn Sir Fôn a Chlwyd yn ddiweddar (newyddion 17.1.81) a darganfod rhyfeddodau gresyn na ddont i Lanberis hefyd; hwyrach fod yn y lle bach yma fynwent a llawer o ryfeddodau! Os byth daw peiriannau mawr i dyrchu yma i adeiladau tai ar y safle gobeithio gwnaiff rhywun eu rhybuddio i fod yn ofalus!

Hawdd yw credu fod yma Eglwys Gatholig tua 1845 pan ddaeth llawer o Wyddelod trosodd i Ogledd Cymru yn amser y 'Newyn Mawr' o Iwerddon. Roedd rhaid iddynt wrth eglwys gan eu bod yn Gatholigion cadarn. Gweithient yn chwael Dinorwig, a 'padis' gyda'u ceffylau mawr adeiladodd lein fach yr Wyddfa. Mae tŷ yn Ninorwig heddiw a'i enw'n 'Dublin House' ac i Tan-y-ffordd uwch ei ben y daeth fy hynafiaid i o Iwerddon tua 1845 - felly mae'n debyg mai Catholigion oeddym ni'r 'Michaels' a'r 'Wheldoniaid' a llawer eraill yn y cwmmpasoedd yma. Gwelwyd dylanwad enwau Beiblaidd ar blant yn y cyfnod yma - Abel, Benjamin, Darcia, Dinah, Elias, Magdalen, Maria, Kezia, Hephzibah, Rebecca, Salome - (ymlaen ac ymlaen!).

Pan ddaeth yr Esgob Godfrey Goodman (tua 1650) o'r carchar yn Llundain i Tŷ Du tybed nad oedd yma rai yn cydymdeimlo ag ef am ei fod wedi troi'n Gatholig ac yn brwydro i gael Piwritaniaid a Chatholigion yn un eglwys? Roedd



Adeilad 'Bryn Eglwys' Llanberis.

yma rwyrai yn yr ardal wedi rhoi lloches iddo am ei fod yn Gatholig.

Mae'r enw 'Michael' yn sicr o fod wedi tarddu o Iwerddon ac fe'i clywir ar lawer aelwyd o hyd yn yr ardal yma. Disgynyddion Catholigion o Iwerddon yw llawer ohonom ac yn enwedig os oes gwallt coch gennym - ac yn caru cerddoriaeth a chrefydd, mae'r rheini yn reddfod ynom!

Pwy sy'n cofio'r prynhawn Sadwrn hwnnw y 29ain o Fedi 1979 pan ddaeth y teledu a'r Pab, John Paul II ar bob aelwyd bron yn y pentre a phawb a'i gwelsant yn

dweud ei fod wedi'u gwfreiddio gyda thri gair "Carwch eich gilydd!" Pwy o'r hen Rufeiniaid yna ganrifoedd yn ôl fuasai wedi credu fod y fath beth yn bosibl - gallaf feddwl am Esgob Goodman yn rhyfeddu at y fath syniad!

Pam tybed fod yr adeilad cynta a adeiladwyd yn 'Coed y Ddôl' (Llanberis) wedi cael yr enw 'Bryn Eglwys'? Amser a ddengys - murddun yw ar hyn o bryd ond profir rhyw ddydd iddo fod yn eglwys!

YNNI NIWCLEAR - BARN POBL GWYNEDD

Mis Tachwedd y llynedd, trefnodd y grŵp Arolygu Ynni Cymreig, gan weithredu dros y Cynghrair Gwrthniwclear Cymreig, bôl piniwn cyhoeddus ar ynni niwclear yng Nghymru.

Yn ôl canlyniadau'r pôl a gyhoeddwyd wythnos yn ôl, roedd 83% o'r rheini a fynegodd eu barn yng Ngwynedd yn anghymeradwyo'r cynnig i gladdu sbwriel niwclear yng Nghymru, a 10% yn unig yn ei gymeradwyo. Cymharer hyn â'r 82% o'r boblogaeth Gymreig sy'n ei anghymeradwyo.

Ynglŷn â pholisi presennol y Llywodraeth o godi deg gorsaf niwclear newydd yn ystod y deng mlynedd nesaf, roedd 55% o'r rheini a holwyd trwy bôl piniwn yng Ngwynedd yn gwrthwynebu, 29% yn cefnogi, a 16% yn ansicr. Dengys y pôl wrthwynebiad o 58% i'r rhaglen ehang, cefnogaeth o 25%, ac ansicrwydd o 16% trwy Gymru yn gyffredinol.

Hefyd, roedd 57% ym mhôl piniwn Gwynedd am i fwy o arian gael ei wario a ddatblygu ffynonellau Ynni Amgen nag ar ynni niwclear. Fodd bynnag, teimlai 25% y dylai swm cyfartal gael ei wario ar ynni niwclear ac ynni amgen fel ei gilydd.

Holwyd cyfanrif o 905 o bobl trwy'r pôl yng Ngwynedd yn ystod yr arolygu, a wnaed ym Mangor, Biwmares, Harlech, Caergybi, Llandudno, Llangefni, Porthaethwy, Mynydd Llandegai, Penisarwaun, Penrhynedraeth, Porthmadog, Pwllheli a Thregarth.

Yn wyneb maint ac ehangder y pôl hwn, hoffai Grŵp Gwrthniwclear Bangor i Gyngor Sir Gwynedd gadw'r darganfyddiadau hyn mewn cof os derbynnir cais naill ai am ddrilio am le sbwriel niwclear, neu ynteu am orsaf niwclear newydd yn y Sir.

WYDDOCH CHI?

Beth yw Willy-Willies?

Enw ar stormydd ofnadwy yn Awstralia yw'r Willy-Willies. Yn rhannau eraill o'r byd fe'u gelwir yn seiclun, teiffwn neu hurricane. Stormydd o wyntoedd cryfion ydynt sy'n effeithio ar ardaloedd trofannol y byd. Ond ble bynnag y bydd y stormydd yn digwydd, byddant yn gadael llanastr a difrod.

Mae rhai o'r stormydd yn cynhyrchu cymaint o ynni mewn un eiliad â deg bom atomig! Er 1900 gwnaethpwyd difrod gwerth £5,000 miliwn i eiddo yn America. Mae'r gwyntoedd yn ddigon cryf i chwythu tai i lawr, ac mae'r tonnau a greir gan y gwyntoedd yn chwalu porthladdoedd cyfan.


Yn Unol Daleithiau'r America mae uned arbennig i wyllo'r stormydd hyn. Mae enw merch yn cael ei roi ar y storm - gan ddechrau gyda'r llythyren A. Gall storm gyntaf y tymor gael ei galw'n AUDREY, yr ail yn BERTHA ac yn y blaen.

Diolch ein bod ni yng Nghymru yn byw'n ddigon pell o lwybrau'r stormydd ofnadwy hyn.

OSMOND W. SHAW



Peiriannydd
Radio a Theledu
& Gwasanaeth Awdio
BWLCH UCHAF
DEINIOLEN
Ffôn Llanberis 545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch
cyn 10 o'r gloch



TAFLU GOLEUNI AR NOFEL DYWYLL

(Adolygiad o addasiad Theatr Cymru o waith Caradog Prichard 'Un Nos Ola Leuad')

Mae'r nofel **Un Nos Ola Leuad** gan y diweddar Caradog Prichard, wedi creu dipyn o ddadlau ac amrywiaeth barn ymysg ysgolheigion drwy Gymru gyfan. O bosib' dyma'r nofel fwyaf chwyldroadol a gafwyd yn yr iaith Gymraeg. Nofel gymhleth, ddieithr a seicolegol ydyw – nofel sy'n fwy o hunan ddadleniad na chynnyrch cymdeithasol. Ynddi fe geir hunangofiant, neu'n hytrach, bererindod olaf gŵr wedi ei reibio gan gysgodion plentyndod a bachgendod.

Mae goleuadau ysbeidiol y lleuad yn arwyddocaol gan eu bod yn dwyn i gof ryw ddigwyddiad pwysig yn hanes yr awdur yn ei ardal. Drwy'r nofel, pwysleisir y berthynas glos rhwng y bachgen a'i fam a dirgelwch absenoldeb y tad. Pan aiff y fam i'r Seilam, gedir y bachgen yn ddi-asgwrn-cefn, ar goll yn ei unigrwydd heb neb i droi ato ati ond Brenhines y Llyn Du. Ceir cymysgu amser rhwng y presennol a'r gorffennol, yna â'r ymdeimlad drwy'r nofel mai ffawd sy'n rheoli bywyd, a phan ddiflanna'r ffawd hwnnw, y try pawb a phob dim yn wallgof.

Tasg go anodd felly, a roddwyd gerbron John Ogwen pan aeth ati i geisio llwyfannu nofel mor ddandansoddiadol. Penderfynwyd ar ddrama un act ac un set hynod o ddyfeisgar a symbolaidd. Rhannwyd y llwyfan yn dair rhan, pob un yn cynrychioli rhyw ddylanwad arbennig yng ngyrfa'r awdur. Cafwyd tomennydd y chwarel yn y cefndir, a phont gerrig fechan hynod o symbolaidd yn gwahanu blaen y llwyfan a'r lle yr arferai'r plant chwarae a chreu drygau. 'Roedd y bont yn bwysig nid yn unig am ei bod yn gwahanu'r ddwy ran flaen yn y set ond hefyd am ei bod yn atgoffa rhywun yn syth o Fethesda – mae yno gymaint o bontydd! Yn nhu blaen y llwyfan gosodwyd tair cadair bren werinol i greu canolbwyntiau eraill yn y ddrama. Eisteddai'r fam, Maureen Rhys, heb symud yr un fodfedd yn y gadair ganol drwy gydol y ddrama i gyfleu'r berthynas glos rhyngddi hi â'i mab a'r dylanwad mawr a gafodd arno.

I feddwl bod effaith y lleuad yn

amharu cymaint ar y bachgen gallai'r goleuadau fod wedi rhoi mwy o sglein ar y set. Gallid bod wedi gwneud mwy o ddefnydd symbolaidd o liwiau glas oeraidd o wyll, ac ambell dro o orffwylltra'r lliw ar gyfer ambell ddarn o'r nofel.

Cafwyd actio penigamp o'r radd flaenaf yn y perfformiad. 'Roedd maint rhan John Ogwen yn anferthol, a llwyddodd gyda dawn yr actor medrus i gynnal gyrfa'r awdur gan newid yn feistrolgar a rhyfeddol o ddiniweidrwydd plentyn direidus i syndod bachgen mewn profedigaeth.

Fe fuaswn i'n dweud mai ar Maureen Rhys, y fam, yr oedd y straen fwyaf, er mai rhan eiriol gymharol fychan oedd ganddi. Gyda chynildeb actores fedrus, llwyddod i fynegi gwallgofrwydd y fam ar y diwedd.

Mae'r is-gymeriadau i haeddu clod, yn enwedig Wyn Bowen Harris am ei ddiereidi bachgennaidd a'i galon feddal wrth ymadael am y sowth a llwyddodd llais melfedaidd Gwyn Vaughan i godi lwmp yng ngwddf pob un ohonom 'rwy'n siŵr. Tueddu i siarad drwy'i farf yr oedd Grey Evans ar brydiau ond teimlaf mai bai mawr y perfformiad oedd castio Gwen Elis fel gwraig chwarelwr. Yn wir, buasai Gwen wedi gweddu'n well fel gwraig i fonheddwr Castell y Penrhyn na gwraig i Werinwr o'r chwarel. 'Roedd ei hacen ddeheuol yn taro nodyn chwithig yn y glust, ac 'roedd ei hosgo a'i hymarweddiad yn rhy osgeiddig i fod yn werinol. Maddeued i mi am ei barnu'n filain braidd yna, ond efallai mai chwilio am chwyn ynghanol gardd Eden yr wyf.

Wedi dweud hyn i gyd, a gaf i longyfarch y cwmni am eu perfformiad bythgofiadwy. 'Rwy'n siŵr na fydd cymaint yn barnu'r nofel yn llym am ei dieithrwrch o hyn ymlaen.

Anwen Jones

GOL: Anfonodd Miss Anwen Jones, Meillionydd, Penisarwaun yr adolygiad hwn i'r 'Eco' ar anogaeth y Dr Gwyn Thomas ei thiwtor yng Ngholeg y Brifysgol Bangor. Llauer o ddiolch iddi.

TAN-Y-COED

ADLONIAN – Nos Wener, Mawrth 6 yn Ffestri Tan-y-coed cafwyd noson o adloniant wedi ei threfnu gan Mrs Violet Blanchard, y Llythyrdy. Cafwyd noson wrth fodd y cynulliad dda ddaeth ynghyd.

Mrs Blanchard a Mrs Kathleen Jones, 2 Maesgerddi oedd gwestwragedd y noson a darparwyd paned a lluniaeth ganddynt.

Sicrhodd Mrs Blanchard raglen ddifur o ganu ac adrodd storiâu. Mrs Mary Lloyd Williams a Mr Irfon Ellis oedd yn gwneud yr olaf. Mrs Blanchard, Mr a Mrs Irfon Ellis a'u dwy ferch oedd yn gyfrifol am yr ochr gerddorol, a Mrs Blanchard a Mrs Ellis wrth y piano.

Diolchwyd i'r parti ac i'r gwestwragedd gan y gweinidog y Parch W.O. Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 27.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs Arthur Vaughan Jones, 6 Maesgerddi ar ddathlu eu priodas arian ar Fawrth 24. Pob bendith iddynt i'r dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs Mark Stokes (Bwsiau Arfon Llanrug) ar enedigaeth eu mab cyntafanedig – Siôn Arfon Stokes. Ganwyd Siôn ar Fawrth 8. Llongyfarchiadau hefyd i Nain a Taid, Mr a Mrs Eric Morris, Awelfryn, ar enedigaeth eu hŵyr cyntaf.

Dyma lun Siôn yn naw niwrnod oed.



LLONGYFARCHIADAU – i ddwy eneth o'r cylch yma am eu llwyddiant

yn Eisteddfod Gylch Arfon o'r Urdd yn Ysgol Brynrefail.

Perthynai Manon Llwyd Evans, Carwyn a Bethan Lewis Parry, Ael-y-Bryn i grŵp y ddawns greadigol dan 12 oed, enillwyr y wobwr gyntaf, ac i Barti Recorder dan 12 oed a enillodd wobwr gyntaf. Yr oedd Bethan hefyd yn un o grŵp y ddawns werin dan 12 oed, grŵp arall llwyddiannus. Manon enillodd y wobwr gyntaf am ganu'r piano dan 12 oed.

Bydd Manon, Bethan a'u cyfoedion, ar sail eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Gylch, yn mynd ymlaen i gystadlu ymhellach yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor. Rhagor o lwyddiant iddynt.

Camp arall ddaeth i ran Manon oedd ennill Medal Aur am nofio ym Mhwl Nofio Bangor.

Bore Sadwrn ym mis Chwefror yn rhaglen y plant 'Ribi-di-res' ar Radio Cymru darllenwyd pennill o waith Amlyn Llwyd Evans, Carwyn. Llongyfarchiadau iddo yntau.

CROESO – adre o ysbyty i Mrs Jennie R. Hughes, Oerddwr. Dymuna Mrs Hughes ddiolch yn gynnes iawn i'w pherthnasau, ei chymdogion a'i ffrindiau am eu caredigrwydd iddi tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adre, am y cardiau niferus, y llythyrau a'r anrhegion. Buont oll yn gymorth mawr iddi wella.

Diolch yn arbennig i'r Parch W.O. Roberts.

COLEG PRIFYSGOL 'CYMRU'?

Hysbysebwyd swydd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn ddiweddar, gyda'r geiriad "gwybodaeth o'r Gymraeg yn hanfodol". Ysgrifennodd gŵr o'r ardal i'r Coleg yn gofyn am fwy o fanylion, ac yn nodi ei gymwysterau. 'Roedd ei lythyr yn uniaith Gymraeg. Derbyniodd atebiad buan a ffurflenni cais am y swydd – yn uniaith Saesneg.

Sôn am 'Goleg ger y Lli' – Coleg yn y Lli – o Seisnigrwydd – fydd o bellach.

GWYDRO DWBL? ARFON WINDOW FITTERS Ltd.

56a Ffordd Penchwintan, Bangor 52313

Cyngor arbenigol yn rhad ac am ddim
Gwarant o 5 mlynedd ar yr holl waith

CEFNOGWCH Y CWMNI LLEOL
SY'N LLOGI LLAFUR LLEOL

Cyfarwyddwr: Ian Harris

MYNNWCH DEITLAU NEWYDD

Cyfres y Fodrwy



pris
50c yr un

AR GAEL
O'CH SIOP LYFRAU LEOL

O SIAMBR SELWYN

DYDD Sadwrn, Mawrth 14 roedd tim pêl-droed Lerpwl yn brwydro am y cwpan, yn erbyn wwest Ham United ar faes Wembli. Ychydig iawn o Gymry Glannau Merswy a aeth i Lundain i gefnogi'r tim dybiwn i oherwydd ar yr un diwrnod fe gynhelid Eisteddfod Gadeiriol Glannau Merswy, yn Neuadd Stanley, Coleg y Brifysgol.

'Steddfod sy'n tyfu o flwyddyn i flwyddyn yw hon, a chafwyd cystadlu brwd drwy'r dydd. 'Roedd Neuadd y Brifysgol yn orlawn, a nifer o eisteddfodwyr o Gymru wedi teithio i Lannau Merswy i gystadlu.

Fe dderbyniais i bentwr helaeth o gyfasoddiadau llenyddol yr Wyl tua mis ynghynt, ac roedd safon cystdleuaeth y gadair yn uchel iawn. Cynigiwyd y gadair am dair ysgrif, neu dair stori fer, neu am ddrama fydryddol, ac fe ymgeisiodd 14eg. Cyhoeddir cyfansoddiadau buddugol yr Eisteddfod hon, ac roeddynt ar werth yn syth ar ôl seremoni'r cadeirio.

Yn ystod y dydd cefais sawl sgwrs ddifyr ag amryw o Gymry Bro'r Eco sy' wedi ymgartrefu ar Lannau Merswy, a sydd yn weithgar yno ynglŷn â'r 'Pethe'. Amryw ohonynt yn fawr eu clod i'r Eco, ac yn tystio i'r mwynhad a gânt o'i dderbyn bob mis.

'Roedd amryw o Saeson yn yddiddori yn y gweithgareddau gan gynnwys rhai o Aelodau Seneddol y ddinas, ac fe drefnwyd gwasanaeth cyfieithu ar eu cyfer. Hefyd 'roedd Arddangosfa Gelf a Chreffit yr Eisteddfod yn werth i'w gweld, a phleser personol i mi oedd gweld gwaith rhai o blant Ysgol Rhiwlas yn cael ei arddangos yno.

Un o fro'r Eco oedd Llywydd cyfarfod yr hwyr sef llawfeddyg o'r Waunfawr - Mr Edgar Parry.

Testun yr englyn digri oedd 'Yr Ayatollah'. Englynwr profiadol - sef y Parch Roger Jones, Llanengan, Llŷn oedd y buddugol.

YR AYATOLLAH

Hen ŵr od yng ngwlad Iran, - a hir flew

Ei farf laes yn hongian.
Un â'i geg fawr yn gogan
Yn "Nero" pinc hanner pan.

Dyma gyfarchiad a gafodd y llenor buddugol, Mr John Griffith Jones o Abergele.

Aeth hogia Lerpwl pnawn 'ma
I Wembli ar eu hynt
I geisio cwpan arian
Am gicio pêl o wynt,
Ond daethost ti i Lerpwl
Drwy'r twnnel dan y don,
Am iti gipio cadair
Y Steddfod hynod hon.

Mae'r Prins o' Wales yn hapus
Os ydïo braidd yn "shei"
'Rôl gweled 'sgwyddau noethion
Ei gariad Lady Di;
Ond yma ar Lannau Merswy
Fe ganwn ni yn iach
Nid Charles, - ond Gruffydd, heno
Yw t'wysog Cymru fach.

Os cafodd Charlie godwm
Os ydy 'drwyn o'n goch,
A dim ond "draw" yn Wembli
A gadd y crysau coch;
Na hidiwn, - yma heno
Fe orfoleddwn ni
Yn 'Steddfod Glannau Merswy
Wrth dy gadeirio di.

Ie yn wir. Steddfod hynod oedd hon.

i'r gyfeilyddes fedrus, Miss Lowri Prys Roberts gan Mrs Vera Jones, M.Sc., Meillionen.

Trefnwyd gwledd arbennig o fwydydd Cymreig gan aelodau'r gangen ar gyfer y noson.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ebrill 15.

YR URDD - Dydd Sadwrn, Mawrth 7 bu'r plant yn cymryd rhan yn Eisteddfod Gylch yr Urdd a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail.

Buont yn cystadlu mewn amryw o gystadleuthau megis partïon canu, côr a chydadrodd ynghyd â chystadlaethau unigol.

Hyfforddwyd y plant gan Miss Lowri Prys Roberts, Mrs Heulwen Evans a Mrs Ifanwy Jones.

Yn y gystadleuaeth i adrannau

Diolch i Idwal Jones (Garfan gynt), Gwynant, Parc Muriau, Caernarfon, am ei lythyr diddorol ynglŷn â'r hen fwthyn Ynys Creyrn, Llanddeiniolen. Arferid cyfeirio ato fel 'Tŷ Handel' yn ôl Mr Jones am fod yna hen, hen daid i mi a drigai yno yn gerddor gwyh. (Chwi gofiwch i erthygl ar y bwthyn ymddangos yn yr 'Eco' yn ddiweddar.) Diolch i chi Mr Jones, ond gallaf eich sicrhau na fu i mi dderbyn yr un nodyn o ddawn fy hen, hen daid. Ond enw, neu ffug enw da at dŷ i gerddor ynte - 'Tŷ Handel'!

X X X

Diolch o galon i 'Hen Gwsmer' am iddo anfon llythyr diddorol i mi, a phill bach ar achlysur cau un o siopau bach Deiniolen. Adwaenid y siop fel Siop John Mosus, a bu'n gyrchfan i'r ardalwyr am flynyddoedd. Yn ôl 'Hen Gwsmer', arferai'r "ti-tots" gyfarfod yn y siambr ar nos Sadwrn, - cael smôc a sgwrs, a phrynu da-da yn siop yr hen frawd, a oedd yn flaenor yng Nghefn-y-Waun.

Mair ei ferch, a gadwodd y siop wedi marw ei thad, ond oherwydd gwaeldd rhaid oedd cloi'r drws. W. Iolen Hughes, cyn-brifathro Rhiwlas fu'n gofalu am y siop, a fo fu'n gyfrifol am gloi'r drws am y tro olaf.

Roedd hi'n chwith gweld yr hen efail, a'r hen siop grydd, yn cau mewn sawl ardal, ac yn sicr bydd Deiniolen hefyd yn dlotach o gau drws un o'r hen siopau bach. Dyma bill 'Hen Gwsmer'.

pentref daeth y parti Cerdd Dant yn ail. Bydd y côr yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir a gynhelir ym Mangor ar ddydd Sadwrn, Mawrth 28.

Nos Lun Ebrill 6 cynhelir noson goffi, 'moes a phryn' yn Neuadd Ysgol Cwm-y-glo am 7 o'r gloch. Pris mynediad, oedolion 20c, plant a'r henoed, 10c. Dewch yn llu.

UNDEB Y MAMAU - Bu cyfarfod mis Mawrth o Undeb y Mamau yn y Ganolfan Gymdeithasol gyda'r Reithor yn arwain y gwasanaeth agoriadol. Mrs Williams Y Rheithordy oedd yn llywyddu, a hi a Miss C.J. Roberts, Y Fron, Llanrug oedd yn gyfrifol am y te. Cyfeiliwyd gan Miss C. Hughes, Pool Street. Y gŵr gwadd oedd y Parch A.W. Cherry, Talysarn a rhoes sgwrs diddorol ac addysgiadol ar frodwaith eglwysig a dangosodd beth o'r gwaith ardderchog y mae yn ei wneud. Diolchwyd i Mr Cherry gan Mrs D. Jones, Fron Gader ac i'r gwestwagedd gan Mrs H. Orritt, Morannedd. Diwedddwyd drwy weddi.

"Wel dyma ddiwedd pennod
Ar siop fach ddigon hynod,
Fe fwydodd lawer teulu
Ar lethrau serth Gwaun Gynfi,
Mewn cyfnod o galedi
A llawer iawn o dlodi
Siop John Mosus oedd bryd hynny
A Mair oedd yno'n helpu
Daeth wedyn i'w pherchnogi
Nes gorfod iddi'i chau hi.

Caed ynddi fara, teisenni plaen a ffansi.

Lliw glas, a bob math o bowdra' golchi,
Ffrwytha, tunia swp a sbam
Samon a thriog a thuniau ham.

Y SIAMBAR

Nac anghofiwn chwaith y Siambar
A'i haelodau "sobor" hawddgar,
Ar nos Sadwrn yn pensynnu.

Y CAU

Dydd olaf yw o Chwefror
A'r siop ni chawn yn rhagor.
Chwith fydd hebddi yn Neiniolen
'Rôl cloi'r drws gan Wili Iolen.

Diolch ichi 'Hen Gwsmer', does dim raid i chi guddio tu ôl i ffug-enw.

Coeliwch neu beidio - rydw i yn yr un cwch â Nain 'rwan. Oes ma gin i hawl i brynu Grannie Bonds. Ca'l arian i prynu nhw di'r gamp.

Ma' pob cyllideb yn heneiddio rhywun choelia'i byth!

Hwyl,
Selwyn

CWM-Y-GLO

MERCHED Y WAWR - Nos Fercher, Mawrth 18 dathlodd y gangen leol Wyl ein Nawddsant yn y Ganolfan Gymdeithasol.

Ein gwesteion eleni oedd Parti Blodau'r Grug o Lanrug, o dan arweiniad Mrs Lovatt, a chafwyd gwledd o ganu, adrodd ac actio gan y grŵp amryddawn hwn, a rhyfeddwyd at eu medr. Peth calonogol yw gweld cymaint o ferched ifainc wedi ffurfio parti fel hyn, gyda'u dewis o ddarnau chwaethus, clasurol.

Cyflwynwyd y parti gan Lywydd y Gangen, Miss Mat Pritchard, B.A., Rhosbodrual, a diolchwyd iddynt, ac



**BECWS
DEINIOLLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

**MODURDY
MENAI**



**FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI**

Ffôn : Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans

*Am lyfrau
**DADLEUOL
DIDDOROL
GWAHANOL**
— wel **Y LOLFA**
Amdani bob tro!

YN BOETH O'R WASG:

Cymru fach

LEOPOLD KOHR £2.45
Erthyglau pryfoelyd, ffraeth un o feddyl-
wyr gwleidyddol disgleiriaf y byd.

Caethiwed

EIRWEN GWYNN £1.45 (£2.45clawr caled)
Y nofel a ddaeth o drwch blewyn i ennill
Medal Ryddiaith 1980.

**Ffrangeg
i Bawb**

MEIRION DAVIES £2.45
Dysgwch siarad Ffrangeg modern mewn
sefyllfaoedd byw; yn llawn cartŵnau.

**PRISON
LETTERS**

JOHN JENKINS £1.95
Llyfr gwlatgarol, chwyldroadol a all siglo
seiliau'r sefydliad Seisnig.

**LLYFR GWIS
Y LLEWOOD**

DAFYDD PARRI 95c
1,200 o gwestiynau am bopeth dan haul!

**Yec'hed Iechyd
Mat! Da!**

ZONIA BOWEN 85c
Llyfr ymadroddion Cymraeg/Llydaweg.

CADWGAN

ELWYN IOAN
Y llyfr (£2.85) bron gwerthu allan ond 4
bathodyn (25c) a phostyr lliw-llawn (60c)
ar gael yn awr.

Y Lolfa Cyhoeddwyd ac
Argraffwyd
Talybont Ceredigion SY24 5HE
ffôn Talybont (097086) 304
Catalog rhad 32-tud. ar gael gyda throed y post

GWYLIO'R SÊR

Yn ein nodiadau cyn y Nadolig gwelsom fod seryddwyr yn galw'r pellter o'r haul i'r ddaear (sef 93,000,000 milltir) yn 'Uned Seryddol'. Ond unwaith yr ewch chwi'r tu hwnt i'n Cyfundrefn Haul gwelwch yn syth fod y 'filltir' a'r 'uned seryddol' yn unedau rhy fach i fod yn addas i'w defnyddio. Mae'n amhosibl bron i ni amgyffred y ffaith, ond mae'r seren agosaf i ni (ar wahân i'r haul) tua 25,000,000,000,000 o filltiroedd i ffwrdd. Wrth ddelio â phellteroedd fel hyn rhaid i ni ddefnyddio uned newydd o ryw fath - sef y 'flynyddyn-olau'. Mae golau yn teithio 186,000 o ffilltiroedd mewn eiliad. Mewn blwyddyn, felly mae'n trafaelio 5,880,000,000,000 milltir (h.y. yn agos i chwe miliwn o filltiroedd), a dyma 'linyn-mesur' y seryddwr - y flynyddyn olau, neu'r pellter mae golau yn teithio mewn blwyddyn. Gan ddefnyddio'r uned newydd, felly, mae'r seren agosaf ychydig dros 4 o flynyddoedd golau i ffwrdd, sydd yn haws o lawer i'w amgyffred na 25,000,000,000,000 o ffilltiroedd!

Mae'r ffaith fod y sêr mor bell i ffwrdd yn golygu eu bod yn ymddangos i ninnau fel pethau llonydd yn y nefoedd. Yn wir, 'roedd y cytser, (neu grwpiau o sêr) a welwn ni yn yr awyr yn y nos, yn ffurfio'r un patrymau yn adeg y Rhufeiniaid, neu hyd yn oed mor bell yn ôl â'r adeg y codwyd y pyramidiau yn yr Aifft. Mae hyn yn esbonio'r syniad oedd gan ein cyndeidiau o'r sêr fel pethau sefydlog.

Fel y gwyddoch, mae'n debyg, gwelodd yr hen bobl bob math o siapiau o greaduriaid, pobl a duwiau yn y sêr, a rhannwyd y sêr i fyny'n grwpiau, neu gytser, pob un efo enw arbennig e.e. yr arth, y llew, y sarff ac yn y blaen, ond yn wir mae angen cryn dipyn o ddychmyg i weld unrhyw gysylltiad rhwng yr enwau a siâp y cytser a welir yn yr awyr.

Wrth gwrs, mae'r planedau yn nes o lawer atom. Yn wir, mae ein daear ni yn un o deulu'r planedau. Mae symudiadau'r planedau ar draws y ffurfafen yn amlwg iawn yn erbyn cyfandir y sêr i unrhyw un sydd yn edrych arnynt yn ofalus am dair neu bedair noson ar y tro.

Fel y gwyddoch, mae'r byd, wrth fynd o amgylch yr haul mewn orbid, yn troelli yr un pryd ar ei echel. Ym mhen gogleddol y ddaear mae'r echel, yng nghyffiniau Pegwn y Gogledd, ac os ewch chi â llinell ddychmygol o bwynt yr echel ar y ddaear i fyny i'r nefoedd fe ddewch yn y pen draw i'r Pegwn Gogleddol Seryddol - pwynt sydd yn cael ei farcio yn y nefoedd gan y seren ddisglair 'Polaris' - sef Seren y Gogledd, neu Seren y Pegwn. Oherwydd hyn mae'r seren hon yn ymddangos fel petai'n llonydd, tra mae'r cyrff nefol eraill fel yr haul, y lleuad a'r planedau yn ymddangos fel eu bod nhw'n cylchdroi o'i hamgylch unwaith mewn 24 awr.

Fel y gwelsom o'r blaen, seren yw ein haul ni, ac mae'r sêr a welwn wrth edrych i fyny yn y nos i gyd yn heuliau; rhai yn fwy na'n haul ni, a rhai yn llai. Yn ein cyfundref sêr ni (ein 'Galaxy') mae tua 100,000,000,000 o heuliau. Mae rhai o'r rhain yn anferth. Cymerwch, er enghraifft, y seren Rigel yng nghytser Orion, yr Heliwr. Dyma seren sydd yn disgleirio gyda 50,000 gwaith y goleuni a'r ynni sydd gan ein haul ni. Hefyd mae Rigel o gwmpas 900 o flynyddoedd golau i ffwrdd, felly, y seren a welwn ni heno yw'r seren fel ag yr oedd hi 900 o flynyddoedd yn ôl, tua'r flynyddyn 1080. Fe welwch, felly, o hyn fod yna bosiblwydd weithiau i ni edrych ar seren sydd dim yna; - seren a chwythodd i fyny mewn ffurwydriad o nwyon, ond sydd yn dal mewn 'bodolaeth' i'n llygaid ninnau. I fynd yn ôl am eiliad at y seren Rigel, sydd yn 900 o flynyddoedd

golau i ffwrdd. Dychmygwch am eiliad fod Rigel wedi ffurwydro heno yn y flynyddyn 1981. Mae'r seren mor bell i ffwrdd, ni fydd 'llun' y ffurwydriad yn cyrraedd ein llygaid ni ar y ddaear am 900 o flynyddoedd, h.y. tan y flynyddyn 2881, felly mae'n bosibl i ni edrych ar y seren Rigel fel seren 'iach', yn dal mewn bodolaeth a hithau, mewn gwirionedd, wedi chwythu i fyny ac wedi diflannu. Bydd rhaid disgwyl 900 o flynyddoedd cyn y gwelwn y diflannu, yn digwydd!

Mae ein cyfundrefn sêr ni yn mesur 100,000 o flynyddoedd golau o'r naill ochr i'r llall, ac mae'n haul ni wedi'i leoli tua

25,000 o flynyddoedd golau o'r canol - seren ddibwys iawn wrth ochr rhai o'r cewri yn y gyfundrefn. O'n lleoliad ninnau ar gyrrau'r gyfundrefn rydym yn gweld miliynau o sêr wrth edrych i gyfeiriad canol y gyfundrefn, a dyma beth sydd yn gyfrifol am greu'r effaith a elwir yn 'Llwybr Llaethog'.

Rhag ofn eich bod o dan yr argraff mai ein cyfundref - sêr ninnau yw'r unig un, mae'n well i chwi sylweddoli fod telesgôp Mynydd Paloma yng Nghaliffornia yn dangos 1,000,000,000 cyfundrefn sêr ('galaxies')!

CYRSIAU PLAS TAN Y BWLCH

Mai 1 - 4

ADAR ERYRI

Rhif y cwrs - 810501
£35.70

ARCHEOLEG
DIWYDIANNOL

Rhif y cwrs - 810502
£35.70

Yn fynych, wrth gyfeirio ein sylw at y Chwareli sôn am y cymeriadau a'r diwylliant yn hen chwarelwr y gwnawn. Yn y cwrs yma rhoir y pwyslais bron yn gyfan gwbl ar bensaerniaeth a mecanyddiaeth y chwareli. Awn allan ar y safle a sylwi'n fanwl odiaeth ar yr olion a mesur a chofnodi yr hyn oll sydd i'w weld. Wrth wneud hyn daw haen ar ôl haen o wybodaeth i'r golwg na fedrir ei gael wrth ddarllen llyfrau ac astudio dogfennau. Cawn weld arwyddocad gwaith yr archeolegydd yn y chwareli ac fel y mae'n ychwanegu at waith yr hanesydd.

Cymerir un chwarel fel enghraifft a threulir yr holl amser yn cofnodi a mesur olion y chwarel honno ac wedyn trin a thrafod yr hyn a ddarganfyddwyd.

Y chwarel a ddewiswyd yw'r Graig Ddu, Blaenau Ffestiniog a'r gobaith yw y bydd y gwaith a gyflawnid ar y cwrs hwn yn dod yn ran o gyhoeddiad ar y chwarel hon mewn amser.

Manylion ac ati:
Y Pennaeth,
Plas Ran y Bwlch,
Maentwrog,
Blaenau Ffestiniog
(Maentwrog 324)

NANT PERIS

CROESO ADREF - i Mrs N. Roberts, Glanrafon sydd wedi bod am gyfnod yn Ysbyty Gbowen yn cael triniaeth.

FFARWELIO - Chwith yw ffarwelio â theulu arall o'r Nant sydd yn symud i fyw i Lanberis, ar yr un pryd dymunwn bob hapusrwydd i Mr a Mrs C. Lovell yn eu cartref newydd.

CROESO - i Mr a Mrs Stanley Williams, a'u mab bychan sydd wedi dod i fyw i 4 Bro Glyder. Mae Mrs Williams yn hanu o deulu Cae Gwyn a Ceunant.

YSBYTY - Dymunir adferiad buan i Mr John Morgan, Gwastadnant sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bryn Seiont.

MARW - Yn ystod y mis bu farw Miss Margaret Roberts, 4 Glanrafon ar ôl gwaeledd hir yn Ysbyty Bryn Seiont. Cydymdeimlir â'i ddyw chwaer a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Hefyd bu farw Mrs Margretta Tudur Roberts, Eder. Roedd Mrs Roberts yn enedigol o'r Nant yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Evans, Cwmwrach. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu hiraeth.

LLWYDDIANT - Llongyfarchiadau i Helen Mai, Tŷ Isaf ar ddod yn ail am ganu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd. Pob hwyl eto Helen yn Eisteddfod y Sir.

DIOLCH - Dymuna Mr a Mrs C. Lovell ddiolch am y cardiau a'r dymuniadau a dderbyniwyd ar yr achlysur o symud i'w cartref newydd.

BETWS GARMON

ATODIAD

PEN-BLWYDD - Llongyfarchiadau i Mr W.R. Griffith, Caeau Gwynion ar ei ben-blwydd yn 80 oed ar Chwefror 23.

GENI - Ganwyd mab, Huw Arwel, i Eirian (Ty'n Weirglodd gynt) ac Idris, Garreg Wen, Talwrn. Llongyfarchiadau iddynt ac i Nain a Taid, Mr a Mrs Gwynfor Williams, Ty'n Weirglodd, ac i Hen Daid a Nain, Mr a Mrs W.R. Griffith, Caeau Gwynion.

Eisiau Gwerthu
eich Car, eich Tŷ,
eich Teledu?

Caiff
Hysbysebwyrr preifat
ddefnyddio'r
Eco am ddim.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: Y FELINHELI 670124

Wavell
Roberts
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

WAUNFAWR

CANOLFAN WAUNFAWR – Aeth y cyngerdd agoriadol i gychwyn yr ymgyrch i sicrhau Canolfan i Waunfawr rhagddi'n hwylus, a gwnaed elw sylweddol o £150.

Er gwaethaf gwaelled Trebor Edwards, llwyddwyd i gael tenor enwog arall yn ei le, – Dafydd Edwards o Fethania, Llannon, ger Aberystwyth, a phleserwyd pawb gan safon a graen arbennig ei ganu.

Gwych hefyd oedd cyfraniad Côr Plant yr Ysgol, Alma Jones, Deiniol Hues a'r ddeuawd o Fôn, – Margaret a Glenys.

Yn eu pwyllgor nesaf bydd y pwyllgor codi arian, a'r pwyllgor adeiladu yn ymuno i baratoi camau nesa'r ymgyrch yn ofalus. Cynhyrchir taflen atyniadol yn esbonio holl gynllun y Ganolfan, a gofynnir i bawb ddal eu cyfraniadau yn ôl tan y cânt ymweliad gan gasglyddion y pwyllgor. Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn gynnes i bawb am eu cefnogaeth cyn belled.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod nos lau, Chwefror 26, o dan lywyddiaeth Mrs Rhian Ellis, pryd dangoswyd ffilmiau o'r Aifft gan Mrs Mary Vaughan Jones. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Mary Austen Jones. Enillwyd gwobr y mis gan Mrs Roberts, Bod Idris, – fe'i rhoddwyd gan Mrs Bet Hughes. Yn gofalu am y te roedd Mrs Jones, Bryn Derwen, Mrs Slaven a Mrs Jones, Rhos Lan.

Ar Ebrill 9 mae'r gangen yn ymweld â changen Caernarfon o Ferched y Wawr. Fe drefnir bws ar gyfer y noson, i adael y Post am 6.30 o'r gloch. Enwau os gwelwch yn dda, i Mrs Rhian Ellis, Glyn Awel.

Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Ebrill 30 i'w chynnal yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 o'r gloch. Fe fydd Dr H.L. Roberts yn ymweld â ni.

YSGOL WAUNFAWR – Dathlwyd Gŵyl Ddewi yn yr ysgol trwy Wasanaeth Arbennig a Chyngerdd. Gwahoddwyd y rhieni i'r ysgol brynawn Mercher, Mawrth 4, i ymuno â'r plant yn y dathlu. Cymerwyd rhan gan bob dosbarth yn yr ysgol mewn canu, adrodd, actio, offerynnau a dawnio. Pnawn lau, gwahoddwyd Clwb Gwryfai i'r ysgol, ac ar ôl rhoddi cyngerdd iddynt, eisteddodd oddeutu deugain o'r aelodau i de blasus wedi ei baratoi gan Staff y Gegin. Rhieni plant Safon IV oedd yn gyfrifol am roddi'r bwyd.

Nos Wener, 13eg, cymerodd Côr Plant yr Ysgol, o dan arweiniad Mrs E. Eames, ran yn y Cyngerdd a drefnwyd i godi arian tuag at Neuadd newydd yn y pentref.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys, nos lau, Mawrth 5.

Dymunodd Mrs C.A. Jones, y llywydd, adferiad buan i Mrs Buddug Rowlands, Mrs Southworth a Mrs M. Griffith.

Cafwyd adroddiad o'i hymweliad â'r 'Scene 80' a gynhaliwyd yn Stratford o Avon gan Mrs Katie Jones. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr a Mrs Wynn Jones ar eu hymweliad â British Columbia yng Nghanada yn ddiweddar. Diolchodd Mrs Morgan Jones iddynt. I ddathlu Gŵyl Ddewi cafwyd pryd o fwyd wedi ei ddarparu gan yr aelodau. Rhoddodd Mrs Katie Wynn Jones y blodau ar fwrdd y llywydd ac enillodd Mrs Missen y raffl.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd yr Eglwys nos lau Ebrill 2.: y gŵr gwadd fydd Mr John Hughes o Gaernarfon yn rhoi sgwrs ar 'Straeon

Hen Blimson'.

YR URDD – Bu'r mis diwethaf yn un prysur iawn i aelodau'r Urdd. Ar Chwefror 25 daeth Mr Elfed Roberts, y trefnydd, i'r adran i ddangos ffilm 'Yr Urdd', pryd y cafodd rai o'r plant hynaf weld beth sydd yn eu haros yn Llangrannog yr haf yma. Wedyn, ar Fawrth 4 cafwyd noson o hwyl yng ngofal Norman Williams, Llidiart Wen. Bu'n sôn wrth y plant am Ddewi Sant, ac yna trefnodd ychydig o gemau iddynt tra roedd aelodau o'r pwyllgor yn paratoi crempogau. Ar Fawrth 11 aeth y plant mewn bws i'r pwl nofio yn Llangefni a chael chips yno cyn cychwyn am adref.

Prif ddigwyddiad y mis oedd Eisteddfod gylch. Roedd gan yr adran ddau gôr adrodd, dau barti recorders a dau barti canu, dau aelod yn cystadlu ar ganu'r piano ac un yn adrodd. Cafodd un o'r partion canu drydydd, cafodd Iwan Ellis drydydd ar ganu'r piano ac fe gafodd Nan Wyn gyntaf ar adrodd. Llongyfarchiadau iddynt i gyd, a phob hwyl i Nan yn y Steddod Sir.

YSGOL FEITHRIN – Cafwyd noson o hwyl yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis i ddathlu Gŵyl Ddewi, gyda rhai o Barti Eryri yno i'n diddori. Trefnwyd y noson gan Mrs Heulwen Jones, Cynant Lodge. Diolchwn iddi.

Enillwyd y raffl: 1. Iwan Cadwaladr, Rhianfa, Tai Linabus, Bontnewydd. 2. Mrs Laura Williams, Tros y Gors, Waunfawr. 4. Elin Gwilym, Llidiart Wen, Waunfawr. 5. A.W. Roberts, Llys Helen, Waunfawr. 6. Emrys Hughes, Treflan Isaf, Waunfawr. 7. Iwan Roberts, Caethathro. 8. Bet Hughes, Treflan Isaf, Waunfawr.

CLWB GWYRFAL – Ar bnawn lau Mawrth 5 cafodd aelodau'r clwb wahoddiad gan y prifathro, Mr Leslie Jones, i'r ysgol i ddathlu Gŵyl Ddewi, cafwyd cyngerdd gan y plant, ac yr oeddynt wrth eu bodd yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau ac yna cael eistedd wrth y byrddau i gael pryd o fwyd blasus. Diolchodd Mrs Idris Jones i'r prifathro a'r plant, a chafwyd gair hefyd ar ran rheolwyr yr ysgol gan Mr Dafydd Iwan, a'r Ficer, y Parch Trefor Jones, yn diolch ar ran y clwb i ferched y gegin am ofalu fod pawb yn cael digon o fwyd. Mwynhawyd pnawn difyr iawn. Yn y cyfarfod nesaf, Mawrth 26, bydd Shôn Rhys Jones yn ein difyrru.

BEDYDDIO – Pnawn Sul, Mawrth 15 mewn gwasanaeth yng Nghapel Pendref (A) Caernarfon, bedyddiwyd Karen, merch fach Susan Hughes (Dawson) gan y Parch Owen Lloyd, Brynrodyn.

CYDYMDEIMLWN – â Mrs M. Williams, Bryn Hyfryd ar golli ei chwaer a oedd yn byw ym Mhwlheli, a hefyd â Miss K. Roberts, Tref Eilian, ar golli ei brawd, Ellis, a oedd yn byw yn Chwillog. Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r ddiweddar Mrs Blodwen Pierce, a gwraig a theulu'r diweddar Mr Huw Morris Thomas.

ADREF O'R YSBYTY – Croeso adref i Mrs Griffiths, Bronallt, Mrs Hughes, Tref Eilian a Mrs Barbara Griffith, Tref Eilian.

LLONGYFARCHIADAU – i Elizabeth Owen, 18 Tref Eilian ar lwyddo hefo'i phrawf gyrru, ac i Dr a Mrs Miles, Tre Feddyg, ar fod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd merch fach, Anna, i Lisabeth a Chris yng Nghaerdydd, chwaer i Liza.

SYMUD TŶ – Dymuniadau gorau i Raymond, Ann a Ffion Edwards yn eu cartref newydd ger Bryn Gwylan.



LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs Robert Lewis Parry, 4 Eilian Terrace ar ddathlu eu priodas aur. Priodwyd nhw yng nghapel Ebeneser, Caernarfon ar Fawrth 25, 1931.

Brodor o'r Waunfawr yw Mr Parry a bu ganddo fusnes glo yn yr ardal am 40 mlynedd hyd ei ymddeoliad yn 1966. Bu hefyd yn arweinydd y gân yng nghapel Croesywaun am rai

blyneddodd. Un o Benygroes yw Mrs Parry a chyn priodi bu'n gweithio yn y Swyddfa Gyflogaeth ym Mhenygroes am 7 mlynedd. Mae diddordeb mawr gan y ddau mewn canu.

Mae ganddynt un ferch, Sandra sydd wedi priodi ac yn byw ym Mhorthmadog ac wyres ac wyr sef Bethan a Kevin.



Llun rhai o aelodau cyntaf Clwb Gwryfai yn mwynhau eu hunain yng Nghricieth. Nid oes llawer ohonynt yn fyw heddiw. Beth oedd dyddiad y daith? Beth am hanes rhai o'r bobl yn y llun?

GAIR O DDIOLCH

Annwyl Ddarllenwyr,


Hoffem ddiolch o galon i bawb sydd wedi cefnogi ein hapel am deganau a llyfrau darllen i blant. Maent i gyd wedi bod yn hynod o dderbyniol ac yn cael eu defnyddio'n barhaus.

Diolch yn fawr iawn i chi gyd.

Yr eiddoch yn gywir,

Stephen Jones, Mari Williams
Gwenan Roberts, Nerys Owen
(Therapyddion Lleferydd Uwch)
Bodwrdda,
Lôn Ddewi,
Caernarfon.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

LLANBERIS

LLONGYFARCHIADAU - i "Terry" a Jane Whitaker, 43 Newton Street, ar enedigaeth merch, Ffeuer Hafren, chwaer i Heledd Dôn ac Aeddau Math a dyrsbwnc arall i 'Scruffy', eu ci bach nhw.

YSGOL DOLBADARN - Esitoddod Cylch Eryri - Bu i Adran yr Ysgol wneud yn eithriadol o dda yn yr Eisteddfod yn Llanrug ar ddydd Sadwrn, Mawrth 7. Dyma'r canlyniadau: Unawd Cerdd Dant dan 9 oed: 3ydd Hannah Rudkin; Unawd dan 12 oed: 2il, Lisa Jane Rudkin, 3ydd Jane Parry. Unawd Cerdd Dant dan 12: 1af, Alison Edwards; 2il, Helen Mai Pritchard. Parti Unsain dan 12: 1af, Ysgol Dolbadarn. Parti Cerdd Dant dan 12: 1af Ysgol Dolbadarn. Côr Adran: 1af Ysgol Dolbadarn.

Llongyfarchiadau i'r plant ac hefyd i Mrs Eirlys Pierce (athrawes) a fu'n eu dysgu. Pob llwyddiant a fo iddynt yn Eisteddfod y Sir ym Mangor, ar Fawrth 28.

Y TÎM PÊL-DROED - Ar ddydd Mawrth, Mawrth 3 aeth Tîm Pêl-droed yr Ysgol i chwarae mewn Twrnament ym Mhorthmadog. Daeth y tîm yn drydydd allan o ddeuddeg o dimau. Llongyfarchiadau i'r bechgyn a Mr Iwan Roberts, eu hyfforddwr.

Cynhelir Noson Goffi a Chyngerdd gan Adran y Babanod, yn yr Ysgol, ar nos Fercher a nos Iau, Mawrth 25 a 26 am 6.30. Bydd yr elw yn mynd tuag at gronfa leol ymgyrch ymchwil i glefyd yr iau.

Yr Ymgyrch Lyfrau - Dechreuwyd ar werthu llyfrau Cymraeg eleni eto, ac y mae Mr Trebor Evans, Trefnydd, yn hyderus y bydd gwerthiant rhagorol.

Y llynedd daeth yr Ysgol yn ail drwy Gymru am werthu llyfrau.

Yn gwella - Yr ydym oll yn falch iawn o ddeall fod Mrs Siân B. Thomas, athraes, yn awr ar y ffordd i wella. Y mae Mrs Thomas wedi bod yn wael ers misoedd ac fe gollir hi'n fawr yn yr ysgol. Dymunwn iddi adferiad llwyr a buan.

Y mae Mrs Grace Roberts, Hyfrydle, un o weithwyr y gegin, wedi dod gartref o'r ysbyty, yn dilyn triniaeth lawfeddygol. Boed i Mrs Roberts wella'n fuan.

DIWRNOD GWEDDI MERCHED Y BYD - Yn Ffestri Nant Padarn cynhaliwyd y gwasanaeth o weddi dan arweiniad Mrs Eluned Mai Jones, gyda Mrs Betty Evans, wrth yr organ. Rhoddwyd anerchiad gan Mrs Dilys Bayliss, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Mrs M. Morris, Bronwydd, Mrs Maisie Lewis, Llys Tudur; Mrs Gwynfor Williams, Stryd Newton; Mrs Nancy Jones, Stryd Newton; Mrs Dilys Owen, Stryd Newton; Mrs Hannah Jones, Tawel Lan; Miss Catherine Gillespie; Mrs Morfudd Jones, Erw'r Coed; Mrs Janet Davies, Garej yr Wyddfa; Mrs Jennie Maud Jones, Maes Padarn.

Diolchwyd i'r oll am eu cyfraniad i'r gwasanaeth gan y Parch Marcus Robinson, B.D.

CROESO - Ar ôl eu priodas yn ddiweddar mae Gareth (mab Mr a Mrs Ceris Wheldon Hughes, Dôl Elidir) a'i briod Sharon wedi ymgyrtu yn Stryd Yankee. Croeso cynnes iddynt i'r ardal.

PRIODASAU - **Iolo Owen** - Yng Nghapel Soar, Harlech, â'r Parch Emlyn Williams, a'r Tad Deiniol yn gwasanaethu priodwyd Iolo Wyn Owen, unig fab Mrs Eunice Owen a'r diweddar Robert T. Owen, Meifod, a Delyth Jones, merch Mr a Mrs Gwilym Jones, Bryn Awelon, Llanfair, Harlech. Bydd y pâr ifanc yn cartrefu yn Bryn Mair, Talsarnau.

Eleri Wyn Parry - Yn Eglwys Sant

Padarn gyda'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu, a Miss Marcia Thomas wrth yr organ, priodwyd Eleri Wyn Parry, merch hynaf Mr a Mrs Cledwyn Parry, Min y Don, a Robert John Lewis, Cyncoed, Caerdydd. Y forwyn briodas oedd Valerie Ann Parry, yn cael ei chynorthwyo gan Ceri Lyn Jones, a'r gwas priodas oedd Stephen Lewis. Darparwyd yr arlwy yng Ngwesty Bron Eryri. Dygwyd Mrs Parry, mam Eleri, o Ysbyty Môn ac Arfon i'r gwasanaeth priodas yn Eglwys Sant Padarn, ac yna dychwelyd i'r ysbyty.

Dilys Warren - Yn Eglwys Jerusalem gyda'r Parch Hugh John Hughes yn gwasanaethu, a Mr Bob Lloyd wrth yr organ priodwyd Dilys Warren, Stryd Warden a James W. Simpson. Y forwyn briodas oedd Eurwen Parry, Stryd yr Wyddfa a'r gwas oedd J. Simpson. Trefnwyd y wledd briodasol yng Ngwesty Gallt y Glyn.

POBOL LWCUS - Ond tydi hi'n braf ar rai pobol deudwch - yn cael gwyliau ym mhoethder Florida - tra rydym ni yma gartref yn rhynnu rhwng yr eira a'r glaw! Y bobol lwcus ydi Evan Wilson a'i briod Alice. Maent wedi mwynhau tua tair wythnos yn ymweld â chefnryd yn Florida. Gobeithio eu bod wedi cael amser difyr iawn - byddwn yn siŵr o gael yr hanes i gyd wedi iddynt ddychwelyd adre.

DATHLU GWYL DEWI SANT - Yng Ngwesty'r Fictoria bu dros gant o aelodau clwb yr Henoed yn dathlu'r Wyl. Trefnwyd cinio blasus iawn iddynt a mwynhawyd yr arlwy gan bawb. Diolchgar iawn yw'r pwyllgor i reolwr y gwesty - Mr Sutherland, am ofalu mor drylwyr fel hyn bob blwyddyn am gysur a mwynhad yr hennoed. Hefyd estynnir diolch i'r merched ifanc heini fu'n gweini ar y byrddau, am roddi eu gwasanaeth mor ddymunol a chartrefol.

Estynnwyd croeso i'r hen aelodau a'r aelodau newydd gan Lywydd y Pwyllgor Meira Bryn Hughes. Cyfeiriodd at y rhai a ymadawodd â ni yn ystod y flwyddyn a chydymdeimlwyd â'r teuluoedd yn eu galar. Afiechyd a gwdwodd rhai aelodau gartref, ond pleserus ydoedd gweld saith o Gartref Pengwaith yn bresennol.

Wedi'r cinio trefnwyd adloniant dan arweiniad y Parch Marcus Robinson. Cafwyd pleser mawr drwy wrando ar dri chwpl yn cymryd rhan mewn rhaglen 'Siôn a Siân' dan lywyddiaeth y Parch Marcus Robinson a Miss Ann Jones yn ei gynorthwyo. Y pâr cyntaf oedd Mr a Mrs Griffith Owen, Maes Padarn, ail Mr a Mrs Norman Jones, Stryd Capel Coch, 3ydd Mr a Mrs Ifor Evans, Maes Padarn. Bu cyngerdd yn dilyn gyda'r Parchedig yn profi ei hun yn unawdydd penigamp, gyda chanmoliaeth uchel. Daeth Mrs Carys Jones â pharti o blant o Ysgol Llanrug i ddiddori'r pensïynwyr - Rhian Owen, Siân Gibson, Iola Llywelyn, Nia Jones, Bethan Jones, Lyn Jones, Olwen Meredydd Jones a Gwyn Meirion Roberts.

Estynnir diolch i bawb am eu cyfraniad i'r cyfeillion fu'n cludo y pensïynwyr yn ôl a blaen o'u cartrefi, i Mr Eric Morris am gludo'r plant o'r ysgol, y cyfan yn ddi-dâl, ac i ysgrifenyddes y clwb, Miss Ann Jones am drefnu popeth ar gyfer y diwrnod a fu mor llwyddiannus a threfnus.

CYDYMDEIMLAD - Dwfn iawn yw ein cydymdeimlad â'r ardalwyr hynny a gyfarfu â phrofedigaethau mawr iawn i rai annwyl iddynt a oedd yn trigo allano'r ardal.

Tecwyn Hughes - Ar ôl wythnosau lawer o salwch blin, bu farw mam Tecwyn Hughes, Stryd Yankee yn ei chartref yn Rhiwlas ar ôl salwch blin am amser maith. Roedd wedi dioddef yn dawl a di-rwngach.

Mrs Pughe - Cafodd Mrs Pughe, Stryd Siarlot y newyddion brawychus am farw ei mab yng nghyfraith, (gŵr Eurwen) mewn damwain gyda beic modur. Roedd Eurwen a'i gŵr yn byw yn Llanfrothen, ei gŵr yn swyddog yng Ngorsaf Trawsfynydd a hithau yn athrawes cerddoriaeth yn Ffestiniog.

Megan a Beti - Bu'r ddwy chwaer Megan a Beti dan bryder meddwl a digalondid ers rhai wythnosau oherwydd salwch eu brawd Tom Griffiths o Lanrug. Yn yr ysbyty ym Mangor er brwydro yn galed, bu farw Tom, a thrwm iawn yw'r groes i'w chario gan ei briod ifanc, ei fam, ei frawd a'i chwiorydd, Megan a Beti. Caffed iddynt dderbyn nerth newydd a chryfder newydd.

PRIODAS ARIAN - Yn ystod y mis dathlodd Selyf a Delyth Hughes, Tan y Dderwen eu priodas arian. Derbyniasant lawer o gyfarchion gan lu o gyfeillion - ac estynnir llongyfarchiadau yr ardalwyr iddynt.

DYWEDDIAD - Estynnir llongyfarchiadau calonnog iawn i lan Pritchard Jones, Minffordd a Valerie Wyn Jones, 22 Cremlyn, Bethel ar eu dyweddïad.

LLONGYFARCHIADAU - Ar ôl gwasanaethu'r Cyngor ers 1974, penodwyd y Cynghorydd Francis Jones yn Is-lywydd Pwyllgor Arfon. Mae'n cynrychioli'r ardal ar y Cyngor Sir hefyd ac ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf derbyniwyd ef yn Ustus Heddwch.

Pob llwyddiant iddo ymhob adran o'i waith yw dymuniad yr ardalwyr iddo.

CLWB Y MAMAU - Yng Ngwesty Bron Eryri ar ddechrau'r mis mwynhawyd gwledd ardderchog gan aelodau Clwb y Mamau, wedi'r wledd bu dawnsio a chafwyd noson ddifyr iawn gan yr oll o'r aelodau.

TÎM JUDO CYMRU - Wythnos yn ôl bu Adrian, mab hynaf Mr a Mrs Dennis Williams, Stryd Fawr yng Nghaerdydd yn dilyn profion gyda Judo.

Bu'n llwyddiannus ymhob un o'r profion ac enillodd le yn y tîm dan 18 oed sydd i gynrychioli Cymru. Bydd y tîm yn cystadlu yn yr Alban ymhen ychydig wythnosau, ac yna yn ddiweddarach yn y Crystal Palace, Llundain.

Ychydig o wythnosau yn ôl bu Adrian yn cystadlu yn Llangefni yn adran yr oedolion a daeth yn ail ym mhencampwriaeth Gwynedd.

Llongyfarchiadau calonnog iawn i Adrian - mae'n amlwg fod dyfodol gwych iddo ym myd Judo.



CLWB IEUENCTID LLANBERIS

Aelodau o'r Clwb codi pwysau ac ymarfer corff, sydd yn cyfarfod bob nos Lun yn Neuadd yr Eglwys o dan ofalaeth Mr Colin Hughes. Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb ymuno. Rhes Gefn: (Chwith i'r dde), Mr Colin Hughes, Iolo Evans, John Ifor Jones, John Gwynedd Jones ac Eilir Parry.

Rhes Flaen: (chwith i'r dde), Trevor A. Jones ac Iwan Evans.

(Rhagor o newyddion Llanberis ar dudalen 19) (Llun: John G. Williams)

Lle GWYCH Ar Gyfer Noson Allan!

**GWESTY'R
FOELAS
(PREIFAT)
LLANRUG**

(Perch. Richard a Meirwen Thomas)
FFÔN: CAERNARFON 4652

**PRYDAU BASGED BLASUS
BAR CLYD Â DEWIS DA O DDIODYDD**

LLANBERIS (Parhad)

MARWOLAETHAU - Meiriona Rowlands - Ychydig o wythnosau ar ôl colli ei phriod Robin yn sydyn iawn, bu farw Meiriona Rowlands, Stryd Siarlott yn yr ysbyty ym Mangor. Roedd yn 70 oed ac wedi byw bron ar hyd ei hoes yn yr ardal. Cydymdeimlir â'i dau frawd, John a Richard, hefyd ei nai Gareth a Sim a'r teulu. Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris, gyda'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu yn Eglwys Sant Padarn ac ar wrth y bedd.

Mrs Elizabeth Kate Lewis - Roedd Mrs Lewis, 6 Blaen y Ddôl, yn 87 oed ac wedi mwynhau iechyd pur dda ar hyd y blynyddoedd hyd yn ddiweddar iawn. Pan aeth yn wael smudodd i gartref ei hoes yn y Felinheli lle y bu farw. Brodor o'r ardal ydoedd Mrs Lewis. Roedd wedi claddu ei gŵr 35 mlynedd yn ôl. Aelod ffyddlon iawn o Eglwys Sant Padarn ydoedd ar hyd ei hoes. Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris gyda'r Parchn Canon Alun Jones a Richard Jones, y Felinheli yn gwasanaethu. Gedy un ferch, wyrion ac wyresau. Estynnir cydymdeimlad llwyrfa iddynt oll, yn neilltuol i Kenneth a Beti Wyn a fu'n cyd-fyw â hi yn ei chartref Blaen y Ddôl.

William Parry - Yng nghartref ei ferch yn 4 Brynffynon bu farw William Parry yn 96 oed. Bu yn gweithio gyda'r peiriannau yn Chwael Dinorwig hyd ei ymddeoliad, ac wedi colli ei briod cymerodd ei gartref gyda'i ferch a'i theulu. Collodd ei olwg yn llwyr a dibynna yn hollol ar ei ferch i'w gynorthwyo. Gwerthfawroga bob cymorth a gawsai. Claddwyd ef ym mynwent Nant Peris gyda'r Canon Alun Jones a'r Parchn Marcus Robinson yn gwasanaethu yng Nghapel Gorffwysfa ac wrth y bedd. Estynnir cydymdeimlad yr ardal i Elinor Morris, ei ferch, a fu mor ffyddlon i'w thad dros amser maith.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mrs Thomas Evans, Caledfryn, sydd yn awr yng Nghartref Pengwaith, ddiolch i'r llwyddiant a chymdogaion am eu cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ym Mangor.

Dymuna Mr a Mrs Cledwyn Parry, Min y Don ddiolch i bawb am eu dymuniadau da, yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd Mrs Betty Parry yn ysbyty Môn ac Arfon.

GARTRE - Pleser mawr i'w chymdogaion a'i llwyddiant yw cael Mrs Hilda Williams, Stryd y Faenol gartref ar ôl ysbaid yn yr ysbyty ac i'w gweld i'w gwella yn dda.

Hefyd Mrs Parry Davies, Pen y Graig hithau wedi dychwelyd gartref o Ysbyty Eryri, Caernarfon.

O Ysbyty Dewi Sant Bangor dychwelodd Mrs Grace Roberts, Stryd Capel Coch ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol. Mae hithau wedi gwella yn dda iawn.

Croeso gartref iddynt oll.

UNDEB Y MAMAU - Arweiniwyd gwasanaeth y mis gan y Canon Alun Jones. Mwynhawyd anerchiad ddifyr iawn gan yr Uwchgapten Langley ar waith Byddin yr Iachawdwriaeth, a diolchwyd iddo gan Miss Catherine Gillespie. Dymunwyd adferiad llwyr i'r aelodau canlynol a fu'n cwyno yn ddiweddar - Mrs Allen, Mrs N. Roberts a Mrs Bob Owen.

YN YR YSBYTY - Yn Ysbyty Môn ac Arfon mae Mrs Betty Parry, Min y Don, Mrs Bob Owen, Dol Eilian a Mrs Roberts, Olgra Terrace. Dymuniad yr ardalwyr yw am iddynt dderbyn gwellhâd yn fuan iawn, a'u croesawu gartref at eu teuluoedd.

LLONGYFARCHIADAU - i Nerys a Gwyn Jones, 3 Porth y Cwm, Llanarmon D.C. ar enedigaeth Dyfan Gwyn. Llongyfarchion hefyd i nain a taid, Mr a Mrs Glyn Williams, 18 Maes

Padarn, ac i Mrs J. Humphreys, 62 Maes Padarn, yn hen nain am yr ail dro.

PLAID CYMRU - Cynhaliwyd cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Eryri ar Chwefror 28, gyda chynrychiolaeth dda o amryw o'r canghennau. Y gŵr gwadd oedd Mr Dafydd Wigley, A.S., a chafwyd adloniant gan Mr Glyn Williams, (Glyn Pensarn). Enillwyd y rafflau gan Mrs Jan Davies a Mr Emrys Jones.

Yn dilyn Ffair Wanwyn yn y Ganolfan ar Ffwrth 12 a agorwyd gan Mrs Catherine Jones, Ysgol Pendalar, anfonwyd y swm o £44.50 tuag at yr ysgol.

Ar Ebrill 9 cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn y Ganolfan yng nghwmni Mr Dafydd Wigley, A.S., a chynghorwyr lleol a sirol. Trafodir problemau lleol, ac estynnir croeso cynnes i bawb.

DIOLCH - Dymuna Mrs Breda Hughes a Mrs Sellers ar ran Pwyllgor Afiechyd yr Iau mewn Plant ddiolch i Ferched y Wawr Cwm-y-glo am eu rhodd ac i Mr a Mrs Newman, Mount Pleasant am drefnu cystadleuaeth Gwyddbwyll a chasglu £8 at y gronfa.

WEDI GWELLA - O'r diwedd mae'r driniaeth drosodd - a dyma Judith gartref yn ôl o Ysbyty Gobowen wedi gwella'n gampus.

Mae croeso mawr i chi adre'n ôl. Nid teulu Beech Bank yn unig sydd yn falch o'ch cael gartref ond eich cyfeillion yn yr ysgol ac yn yr ardal.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Yng nghyfarfod Chwefror buom yn dathlu Gŵyl Ddewi, gyda swper blasus wedi ei baratoi gan ferched y pwyllgor. Yr oedd yr adloniant yng ngofal Mrs Beti Humphreys, gyda Mrs Jean Elis yn cynorthwyo. Ar ôl sôn am ein Nawddsant, cawsom goroni y bardd buddugol ar y Llinell Goll, sef Mrs Beryl Ellis, gyda llawer o ddiolch i Perisfab am osod a beirniadu y Llinell Goll; yn y gystadleuaeth corau, côr Mrs H.O. Roberts oedd yn fuddugol. Am lenwi blwch matsis, gyda 131 o eitemau yn blwch, Mrs Katie Griffiths oedd yr enillydd a Mrs Nan Owen a enillodd y gystadleuaeth 'Miss W.I. Llanberis'. Cawsom noson arbennig o hapus, a'r aelodau i gyd yn ymuno yn yr hwyl. Yr oeddym yn falch hefyd o groesawu aelod newydd, sef Mrs Dilys Jones, Beech Bank.

ARLUNIO - Llongyfarchiadau i Gwyneth Evans, Ysbyty'r Chwael ac Andrew Vaughan Williams, mab Mr a Mrs Dennis Williams, Stryd Fawr ar ennill gwobrau dan nawdd y 'Western Mail' am arlunio.

ATHLETAU - Llongyfarchiadau i Melanie Sellars ar ddod yn ail yn y Ras 'Traws Gwlad' ysgolion Gwynedd. Mae Melanie wedi cael ei dewis i gynrychioli Ysgolion Gwynedd ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cymru yn Llanellwedd. Pob hwyl iddi.

Llongyfarchiadau i Paul Roberts (5 oed), Jason Roberts (6 oed) a Darren Roberts am redeg mor dda yn nhîm 'Eryri Harriers' ym mhencampwriaeth Gogledd Cymru. Cafodd Paul a Jason darian am waith tîm dros Eryri Harriers. Yn y ras i enethod dan 15 oed roedd Melanie Sellars yn 8fed. Yn y ras i fechgyn dan 15 oed rhaid sôn am Gari Ellis o Gaernarfon, sydd â chysylltiad â Llanberis gan mai bachgen o Lanbêr yw ei dad, sef Dafydd Ellis, gynt o Res Victoria.

DIOLCH - Dymuna Mrs Grace Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch ddiolch yn gynnes iawn i'w pherthnasau, cymdogaion a chyfeillion am eu caredigrwydd tra roedd yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod adref - y llwyddiant a'r anrhegion, galwadau ffôn ac ymweliadau. Buont oll yn gymorth mawr iddi wella.

Diolch i feddygon a gweinyddesau Ward Gwynedd, Ysbyty Dewi Sant, Bangor am eu gofal. Diolch i'r Parch Huw John Hughes am ei ymweliadau cyson.

DYDDIADUR

EBRILL

1, Mercher. LLANBERIS. Clwb y Mamau.

2, Iau. WAUNFAWR: Sefydliad y Merched - 'Straeon Hen Blismon' gan Mr John Hughes. CWM Y GLO: Clwb Pobl y Cwm. LLANRUG: Noson Goffi Cymdeithas y Chwiorydd, Capel Goffi am 7.00. LLANBERIS: Noson Goffi dan nawdd Pwyllgor yr Ysgol Feithrin yn y Ganolfan am 7.00. DINORWIG: Cyngerdd gan Seindorf Deiniolen yn y Ganolfan.

3, Gwener. LLANBERIS: Te yr Henoed.

6, Llun. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30. CWM Y GLO a BRYNREFAIL: Noson Goffi, 'Moes a Phryn' yn Neuadd Ysgol Cwm y Glo am 7.00. Y noson dan nawdd Adran yr Urdd.

8, Mercher. BETHEL: Merched y Wawr - 'Sychu Blodau' gyda Mrs Gweneirys Jones, Waunfawr.

9, Iau. CWM Y GLO: Clwb Pobl y Cwm. WAUNFAWR: Merched y Wawr yn ymweld â Changen Caernarfon. LLANBERIS: Cyfarfod Cyhoeddus dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Ganolfan. Trafodir problemau lleol gan Mr Dafydd Wigley AS a'r Cynghorwyr lleol.

10, Gwener. BETHEL: Noson Goffi

dan nawdd Pwyllgor y Carnifal yn y Neuadd am 6.30.

11, Sadwrn. YR ARDAL: Ffair Wanwyn Merched y Wawr yng Nghaernarfon.

13, Llun. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30

14, Mawrth: LLANRUG: Merched y Wawr. BETHEL: Clwb Bro Bethel - Gŵr gwadd fydd Mr Collwyn Williams, Swyddog Tân.

15-27, Gwyliau Pasg yr Ysgolion.

15, Mercher. CWM Y GLO: Merched y Wawr. LLANBERIS: Clwb y Mamau.

16, Iau. CWM Y GLO: Clwb Pobl y Cwm.

17, Gwener. (Y Groglith)

20, Llun y Pasg

21, Mawrth. PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen.

23, Iau. CWM Y GLO: Clwb Pobl y Cwm. NANT PERIS A LLANBERIS: Eisteddfod y Capeli yng Nghapel Gorffwysfa.

24, Gwener. : NANT PERIS a LLANBERIS: Eisteddfod y Capeli yng Nghapel Gorffwysfa. LLANBERIS: Te yr hennoed.

27, Llun. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

29, Mercher. LLANBERIS: Clwb y Mamau.

30, Iau. LLANRUG: Tombola dan nawdd Undeb y Mamau er budd Plant dan Anfantais Meddyliol. Yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. LLANBERIS: Sefydliad y Merched. WAUNFAWR: Merched y Wawr yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. Sgwrs gan Dr H.L. Roberts

DYDDIADAU I'W COFIO
MAI 8 : Eisteddfod Penisarwaun.

O GINIO CLWB Y RHOS



Mr Lyn Jones o Lanrug, cynhyrchydd gyda'r BBC ym Mangor oedd y gŵr gwadd yn Swper Gŵyl Ddewi Clwb y Rhos, Bethel, yng Nghastell Cidwm, Betws Garmon yn ddiweddar. Clywsom fod ei araith ddigon blasus fel nad oedd rhaid iddo ddefnyddio unrhyw Bupur a Halen!

(Llun: I.L. Jones)



Mr Ron Hughes yn gorffen ei dymor fel cadeirydd Clwb y Rhos.

(Llun: I.L. Jones)

FFARWELIO Â GWEINYDDDES FEITHRIN



Mr Ieuan Williams, Cadeirydd Rheolwyr Ysgol Bethel yn cyflwyno rhodd o werthfawrogiad ar ran yr ysgol i Mrs Elizabeth Evans am ei saith mlynedd o wasanaeth gweinyddes feithrin. Yn y llun hefyd mae Mrs Sutherland (chwith) a Mrs G.A. Williams (de) y ddirprwy brifathrawes. Dymunir pob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd.

(Llun I.L. Jones)

CHWARAEON

"ANGELS ONE FIVE"

gan G.C. PARRY



Yr awdur a'i fab, Victor gydag un o'r awyrennau.

Ar ambell benwythnos braf, efallai i rai o fodurwyr yr ardal sylwi ar nifer o awyrennau yn troelli ac yn dolennu uwchben grug a brwyn y moelydd unig rhwng Deiniolen a Mynydd Llandegai. Yma mae'r ffyddloniaid yn cyfarfod i ddangos eu gorchestion yn hedfan eu gwahanol fodelau o awyrennau hanesyddol – biplane o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf yn ymgodymu â Spitfire neu Hurricane; Tiger Moth a Cessna yn cyd-hedfan mewn arddangosfa sy'n sicr o fod yn unigryw oherwydd amrywiaeth y peiriannau.

O'r pellter, hawdd iawn yw i'r lleygwr anwybodus gamgymeryd y modelau hyn am awyrennau go-iawn, oherwydd maent wedi eu hadeiladu yn fanwl-gywir. Mae'r modelwyr yn gydwybodol iawn wedi llunio'r awyrennau'n union i'w siap a'i ffurf gwreiddiol, gan gadw'n drylwyr i'r manylion lleiaf. Does ryfedd yn y byd fod lleygwr yn rhyfeddu ar wneuthuriad y modelau radio hyn.

O'u harchwilio'n ofalus gellir gweld bod y paneli wedi eu rifetio fel y rhai gwreiddiol, a bod llythrennau cofrestru a chanopi peilot wedi eu copio'n fanwl-gywir.

Trosllwyddyd radio'n cael ei ddal yn y dwylo sy'n gyfrifol am reoli'r awyrennau – ac y mae gafael llywio (joystick) arno sy'n rhoi symudiadau cymesur i'r llyw (rudder), dyrchafion (elevators), ailerons, sbardun, fflapiau a'r olwynion (sy'n codi'n ôl dan y corff). Mae'r injan i gadw'r awyren yn yr awyr tua 10c.c. ac y mae derbynnydd radio a motor i mewn yng nghorff yr awyren yn derbyn eu pŵer o fatri.


Gall modelau mawr olygu cost o tua £400 a chwe mis o waith caled awr hamdden i'w hadeiladu. Erbyn heddiw, mae

hedfan modelau wedi tyfu yn hobi byd-eang, ac y mae dyddiau cynnar y syniad mai teganau i blant bach oeddynt, wedi diflannu. Mae cynulliadau blynyddol y modelwyr mewn gwahanol ganolfannau ym Mhrydain yn denu mwy o gynulleidfaoedd nag arddangosfa flynyddol yr RAF yn y Fali, Môn. Mae cystadlaethau rhyngwladol yn cynnig gwobrau hyd at 500,000 o ddoleri am yr arddangosfa orau.

Erbyn heddiw, mae byd teledu a ffilmiau yn dibynnu'n aml ar fedr y modelwyr i gynhyrchu trefniant hedfan mewn rhaglenni a ffilmiau fel Wings, Flambards, Blue Mac, Darling Lily a Battle of Britain.

I rywun sydd wedi dotio ar awyrennau, yn enwedig ar rai sydd bellach wedi eu llorio, mae'r hobi yn cynnig y nesaf peth i hedfan Spitfire neu Fokker go iawn.

Yn anffodus daeth cwmwl ar y ffurfafen yn ddiweddar gyda defnydd anghyfreithlon a difeddwl Radio'r Werin (C.B.)



Wesley a Victor yn edmygu un arall o awyrennau eu tad.

GWOBRAU: GWOBRAU GWOBRAU

Mae'n bosibl y bydd llond dresal o wobrau yn dod i'r ardal o fewn y mis nesaf, gan gynnwys pencampwriaethau, tlysau a chwpanau mewn gwahanol chwaraeon. Ac y mae rhai ohonynt eisoes wedi cyrraedd. Snwcer, dartiau, codi pwysau a phêl-droed sy'n addo dod â'r holl wobrau hyn i'r ardal. Dyma restr o'r canlyniadau a'r posibiliadau:

CODI PWYSAU

Llongyfarchiadau i Glwb Codi Pwysau Llanrug ar ôl dychwelyd o Bencampwriaethau Cymru yng Nghaerdydd gyda dwy wobr gyntaf a thrydedd. Euryr Williams o Ddeiniolen yn ennill ar ôl 12 mis yn unig o ymarfer y grefft o godi pwysau. Ieuan Owen yn ennill am yr ugeinfed waith yn y pwysau canol, a Colin Owen yn drydydd yn yr un gystadleuaeth.

SNWCER

Llongyfarchiadau i dîm y Gleision, Llanrug ar ennill pencampwriaeth Adran B o Gyngair Bangor a'r Cylch. Yn ogystal mae G. Thomas a K. Griffith o'r un tîm wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan y Parau, ac y mae'r tîm yn cystadlu yn rownd gyn-derfynol Cwpan Pattison – yr unig dîm o Adran B sy'n aros yn y gystadleuaeth. Rhaid iddynt wynebu arweinwyr Adran A yn y rownd hon a bydd angen chwarae da iawn arnynt i gyrraedd y Rownd Derfynol. Pob lwc iddynt.

DARTIAU

Mae'n argoeli'n dda ym myd y dartiau hefyd, gyda thîm y Glyntwrog ar y brig yn Adran 2 o Gyngair Caernarfon a'r Cylch. Mae'r un tîm yn dangos eu sodlau i bawb yng nghystadleuaeth y dyblau hefyd.

Mae'r signal radio o'r modelwyr i'w hawyrennau yn cael eu amharu gan donfedd y defnyddwyr Radio, gan achosi difrod i lawer. Gobeithio y bydd y datblygiadau diweddar ynglŷn â chyfreithloni Radio'r Werin ar donfedd arall yn galluogi'r modelwyr i fwynhau blynyddoedd eto o hedfan eu hawyrennau radio.

PÊL-DROED

Mae dau o glybiau'r fro yn debygol o ddod â thlysau'n ôl i'w pentrefi y tymor hwn. Mae Llanrug yn parhau i arwain Cyngair Caernarfon a'r Cylch – a hynny heb chwarae'r un gêm gynghrair yn ystod y mis diwethaf. Mae gobaith Llanberis wedi ei seilio ar y cwpanau eleni, a siawns da ganddynt o gyrraedd rowndiau terfynol pob un o'r tair cystadleuaeth.

BETHEL

Dim ond chwech o gemau sydd ar ôl i dîm Bethel y tymor hwn, a bydd yn rhaid iddynt frwydro'n galed i gadw rhag disgyn i waelod y gynghrair.

Chwaraewyd tair gêm yn ystod y mis, a cholli'n drwm fu eu hanes ym mhob un – 0-4 yn erbyn Talysarn, 1-6 yn erbyn Pwllheli (er i Bethel fynd ar y blaen yn y munud cyntaf) a cholli wedyn y Sadwrn diwethaf 1-6 yn erbyn Llanberis.

LLANBERIS

Mis y cwpanau i Lanberis. Curo Pwllheli o'r diwedd yn y drydedd gêm – Iwan Evans yn sgorio ddwywaith. Chwarae'n erbyn Mt. Rangers ddwy waith – a'u baeddu'r ddeudro – 4-1 yng Nghwpan Morrings a 5-0 yng Nghwpan Alves.

Llanberis a Bethel oedd yr unig gêm gynghrair i'w chwarae y Sadwrn diwethaf yng nghanol y glaw mwyaf ers dilyw Noa. Llanberis a orfu o 6-1 ond roedd y cae yn edrych fel pe bai cenfaint o foch wedi bod yn tyrchu ynddo. Calondid i gefnogwyr Llanberis yw gweld Iwan Evans yn sgorio'n rheolaidd; 7 gôl yn y 4 gêm ddiwethaf.

LLANRUG

Tawel iawn fu'r mis hwn yn hanes Llanrug; dwy gêm yn unig a hynny yn Rowndiau 1 a 2 Cwpan Moorings. Er rhoi curfa iawn i Hirael o 6-0, daeth tîm arall Bangor – yr Athletic i Lanrug a churo o 3-1.

DRAENOG



Clywed bod cadeirydd un o glybiau pêl-droed yr ardal wedi cael dihangfa wyrthiol y dydd o'r blaen. Saethodd rhywun ato'n ei swyddfa gan chwalu gwydr y ffenest yn deilchion o'i gwmpas.

Nid wrth geisio dal y bwled yn ei geg y colodd ei ddant blaen ond stori arall yw honno . . .